# Y Dinesydd

Mehefin 2011 Rhif 358 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog


## Arglwydd Faer Newydd i'r Ddinas

Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Delme Bowen, Arglwydd Faer newydd Caerdydd. Fe'i sefydlwyd mewn seremoni arbennig yn Neuadd y Ddinas ddydd Iau, 19 Mai.

Ganwyd Delme yng Nglanaman a threuliodd y rhan fwyaf o'i blentyndod yn Llanedi ger Rhydaman. Mae wedi treulio ei fywyd proffesiynol i gyd yn gweithio yng Nghaerdydd ac mae'n byw ar hyn o bryd yng Nghreigiau gyda'i bartner, Pamela.

Mae Delme wedi bod yn Aelod Gweithredol dros Draffig a Thrafnidiaeth, yng Nghyngor Caerdydd am y tair blynedd diwethaf ac mae'n falch o'i gyfraniad yn y maes hwnnw. Mae ganddo brofiad helaeth mewn Llywodraeth leol, ac yntau wedi gwasanaethu fel aelod Plaid Cymru ar lefelau Cymunedol, Bwrdeistref, a Sir dros y 25 mlynedd diwethaf. Gwsanaethodd ei gymuned y tu hwnt i ffiniau gwleidyddiaeth, hefyd, ac mae'n gyn Lywodraethwr Ysgol Creigiau, Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac ysgolion Cymraeg Llantrisant a Llanhari.

Wrth gael ei sefydlu, dywedodd y Cynghorydd Delme Bowen: "Rwyf wedi bod ynghlwm â gwleidyddiaeth ers blynyddoedd ac mae bod yn Arglwydd Faer yn un o uchafbwyntiau fy ngyrfa wleidyddol. Edrychaf ymlaen at fy nghyfnod yn y gwaith gan gwrdd â phobl yn ystod f'ymweliadau a'm dyletswyddau dinesig."

Elusen yr Arglwydd Faer ar gyfer ei flwyddyn gwaith yw Ymchwil Canser Cymru. Bydd yr holl arian a godir yn ystod cyfnod yr Arglwydd Faer yn mynd i helpu ariannu projectau ymchwil arloesol yng Nghymru, a hynny dan arweiniad gwyddonwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol a myfyrwyr PhD.



Addysgwyd Delme yn Ysgol Gynradd Llanedi ac yna yn Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman cyn mynd i Brifysgol Caerdydd, lle cafodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Sŵoleg. Aeth ymlaen i astudio ar gyfer ei PhD a DSc mewn Bioleg Celloedd. Treuliodd ei yrfa academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, gan ddechrau fel darlithydd mewn Sŵoleg ac yna cael ei ddyrchafu'n Ddarllenwr ac Athro mewn Bioleg Celloedd. Cyhoeddodd bron 200 o bapurau ymchwil ar y pwnc gan ysgrifennu nifer o lyfrau ac erthyglau hefyd, cyn iddo ymddeol yn 2010.

## Boddi Wrth y Lan......Eto

*Ymateb un o gefnogwyr brwd yr Adar Gleision i ganlyniad siomedig y gêm yn erbyn Reading ar 17 Mai.*

Mae methiant Adar Gleision Caerdydd unwaith eto yn y gemau ail-gyfle yn ergyd drom i'r cefnogwyr sydd wedi dilyn y tîm ers degawdau. Bob tro mae hyn yn digwydd mae'n cynyddu'r pryderon ein bod ni ar fin dychwelyd i'r dyfnderau pan oedd gwylio a theithio yn hwyl ond roedd safon y pêl-droed yn erchyll ar y cyfan. Mae'n ddigon hawdd bod yn rhamantus am y gorffennol ond mae realiti trefi hyll Gogledd Lloegr yn rhywbeth arall. Cawsom ein hatgoffa am y rheiny yn Burnley ar ddiwedd y tymor a fu.

*Gweddill y stori ar dudalen 3*

## Dyfodol Cwrt Insole?

Mae trafod brwd yn mynd ymlaen y dyddiau hyn ynglŷn â dyfodol y plasdy Fictoraidd hwn yng nghalon pentref Llandaf. Ddiwedd y 1980au, trwy ymdrechion Cyfeillion Cwrt Insole, fe'i hachubwyd rhag cael ei ddymchwel er mwyn codi tai ar y safle, ac fe'i cadwyd yn ganolfan gymunedol werthfawr. Ond erbyn hyn mae'n bryd ystyried o'r newydd pa fath o ddyfofol sydd i'r adeilad hanesyddol hwn a'i erddi bendigedig.

Un posibilrwydd yw bod rheolaeth y safle yn cael ei throsglwyddo i ddwylo ymddiriedolaeth gymunedol, ac mae Cyngor Caerdydd wedi gwahodd Cyfeillion Cwrt Insole i weithio gyda'i swyddogion ar ddatblygu cynllun manwl. Y bwriad yw gwneud cais am grantiau sylweddol gan amrywiol gronfeydd, fel Cadw a Chronfa Treftadaeth y Loteri ac eraill, a'r prif nod yw'r cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) a ariennir gan Y Loteri Mawr. Mae hyn yn golygu y byddai'r Cyngor, yn y pen draw, yn trosglwyddo perchnogaeth y Cwrt i'r ymddiriedolaeth er mwyn cwblhau'r gwaith adfer ar yr adeilad a'i agor i'r cyhoedd.



Llun y Cwrt yn 1910 trwy ganiatâd W.Clarke, Sculptors & Builders, Llandaf

Mae'r hyn sydd yn y cais TAC yn cynnwys trwsio a chymhwyso y Cwrt a'r tai mas ac adfer y gerddi er mwyn creu amrywiaeth o adnoddau cymunedol, denu ymwelwyr treftadaeth i'r Cwrt, ac amrywiaeth o weithgareddau cymunedol. Bydd y gost rhywle yn sŵn y £5m â'r rhan fwyaf yn dod o goffrau cyrff fel yr Heritage Lottery Fund ac eraill. Bydd y ceisiadau am y grantiau mawr yn cael eu penderfynu yn ystod y 12 mis nesaf ac fe allai'r prif waith ddechrau cyn diwedd 2012 a'i gwblhau erbyn diwedd 2014.

*Gweddill y stori ar dudalen 2*

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Bryan James

Golygydd y rhifyn nesaf:
Nona Gruffudd Evans

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf erbyn 20 Mehefin at:
11 Thompson Ave,
Parc Victoria, Caerdydd, CF5 1EX
029 20309706
nona@gruffudd.org

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James,
16 Kelston Rd, Caerdydd CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan,
24 Cwm Gwynlais Tongwynlais,
Caerdydd, CF157HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones,
22 Blaen-y-Coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir Y Dinesydd gan
Bwyllgor Y Dinesydd

Fe'i cysodir gan Siriol Haf Griffiths
a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

## Cylch Cinio Caerdydd Yn 60 Oed

Ar y 6ed o Orffennaf 1951 cyfarfu rhai o Gymry blaenllaw Caerdydd i ystyried y syniad o gael cymdeithas yn y ddinas lle gallai Cymry Cymraeg gyfarfod i drafod materion cyfoes dros bryd o fwyd, ac o bosib cael Siaradwr Gwadd i roi sgwrs.

Ar y 6ed o Hydref 1951 daeth un ar hugain i gwrdd dros ginio canol dydd yng Ngwesty'r Frenhines, Heol Eglwys Fair. Ar ôl trafodaeth fywiog penderfynwyd yn unfrydol i sefydlu Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Dros y blynyddoedd mae'r Cylch wedi symud i Westy'r Parc ac, yn fwy diweddar, i Westy Churchills. Erbyn hyn, mae'r cyfarfodydd yn digwydd gyda'r nos ac rydym yn croesawu menywod!

Yn y dyddiau cynnar doedd dim llawer o gyfle i Gymry Cymraeg gyfarfod yn gymdeithasol i gnoi cil; yn awr mae'n bosib dewis o amrywiol gymdeithasau, corau, clybiau, a digon o weithgareddau eraill. Ers 1951 mae'r byd, a'r rhesymau dros gyfarfod, wedi newid, OND mae'r Cylch yma o hyd – ac yn dal i ddenu siaradwyr o safon uchel.

O dan arweinyddiaeth Alun Reynolds, y Llywydd presennol, mae'r Cylch wedi parhau'r traddodiad o groesawu ystod eang o siaradwyr yn cynnwys y diweddar Athro Hywel Teifi Edwards, Grahame Davies, Peter Watkin Jones, Gareth Charles a Brynmor Williams.

Ar y 3ydd o Hydref eleni byddwn yn dathlu ein penblwydd yn 60 oed. Beth am ymuno â ni?

Os ydych eisiau mwy o fanylion, cysylltwch â Tony Couch: ajcouch@yahoo.co.uk neu (029) 2075 3625.

### Dyfodol Cwrt Insole?

yn dilyn o'r dudalen gyntaf

Mae hwn yn broject cyffrous a fydd, os yn llwyddiannus, yn rhoi diwedd ar gyfnod hir o ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y Cwrt, gan adfer yr adeilad a'r gerddi i'w hen ogoniant a sicrhau defnydd da ohonynt i'r dyfodol.

Rhan o'r broses yw ymgynghoriad cyhoeddus, a fydd yn cael ei drefnu yn y misoedd nesaf, ac anogir unigolion a chymdeithasau lleol i gymryd rhan. Cyhoeddir y manylion yn y wasg ac ar wefan Friends of Insole Court. Dyma gyfle gwych i gymdeithasau Cymraeg yn yr ardal gael llais yn yr hyn sy'n digwydd nawr ac yn y dyfodol.

Os ydych am ymuno â'r project, neu gael mwy o wybodaeth, croeso i chi gysylltu â

John Prior-Morris,
Cadeirydd,
Cyfeillion Cwrt Insole,
C/O Cwrt Insole,
Fairwater Road,
Llandaf CF5 2LF
neu
friendschair@insolecourt.org.uk

## Archesgob newydd i Gaerdydd

Penodwyd yr Esgob George Stack gan y Pab Benedict XVI i fod yn Archesgob y Pabyddion yng Nghaerdydd, i olynu yr Archesgob Peter Smith. Gwyddel ydy o, a bu'n Esgob yn Westminster cyn iddo ddod i Gaerdydd.

## Ambiwlans Awyr Cymru

Cafwyd cyngerdd gan Gôr Caerdydd yng Nghapel Bethany, Rhiwbeina, nos Lun 16 Mai, a'r elw sylweddol i fynd i Ambiwlans Awyr Cymru. Trefnwyd y Cyngerdd gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina a chafwyd gwledd o ganu gan y Côr dan arweiniad eu harweinydd ysbrydoledig, Gwawr Owen, gyda Caradog Williams yn cyfeilio. Cyfrannwyd unawdau, hefyd, gan Mark Llewelyn Evans, Catrin Herbert, Naomi Morris, Rhian Williams a Ieuan Wyn.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
PETHAU BYCHAIN, 20 Stryd Bute, Bae Caerdydd, CF10 5BZ
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
HALLS, 44, Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB FOOD
FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
VEG VENDOR, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA
FFERYLLFA CYNCOED PHARMACY, 364 Heol Cyncoed, CF23 6SA

# Cam Arall Ymlaen

Mae'r Sir wedi cyhoeddi nifer y plant sydd wedi cael lle yn yr ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer Medi 2011, sef 628. Mae'r rhif yn ddigon calonogol, 5% yn fwy na'r llynedd, ac yn golygu ffrwd ychwanegol o blant, sef 21 ffrwd. Twf 2010 oedd 26; eleni mae cynnydd pellach o 30.

Mae nifer o'r ysgolion cynradd Cymraeg yn llawn dop neu hyd yn oed yn orlawn – Bro Eirwg, Glan Morfa, Gwaelod-y-garth, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan, Pencae, Treganna, Y Berllan Deg, Y Wern a Nant Caerau. Ar hyn o bryd mae llefydd gwag mewn rhai ysgolion – Coed-y-gof (11), Penygroes (23), Pen-y-pil (14), a Glan Ceubal (23) – ond y tebygolrwydd (ar sail arfer) yw y bydd rhagor o blant yn cael eu cofrestu yn y rhain erbyn mis Medi.

Mae hanes Pwll Coch, Tan-yr-eos a Threganna yn unigryw eleni. Dyn nhw ddim yn hollol llawn ar hyn o bryd, ond mae hynny oherwydd yr ad-drefnu sy wedi bod, yn creu mwy o lefydd. Fyddan nhw ddim yn hir cyn bod yn llawn eto oherwydd mae'r cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg yn yr ardal hon yn uchel iawn.

Yn ffodus, mae'r Sir yn darparu ar gyfer y twf lleol hwn gyda'r bwriad i godi adeilad newydd i Ysgol Treganna erbyn Medi 2013. Cyhoeddwyd bod arian ar gael, ac fe gyhoeddwyd y rhybudd statudol o fwriad y Sir ar Fai 9fed. O'r diwedd, wedi inni aros cyhyd, mae camau breision yn digwydd i gyfeiriad agor yr ysgol newydd a bydd y rhieni dewr a dyfal yn gweld yr adeilad yn dechrau codi yn fuan – er yn rhy hwyr i rai o'r plant presennol, a fydd wedi symud ymlaen i'r ysgol uwchradd cyn bod yr ysgol newydd yn barod.

Mae rhieni ysgol yr Eglwys Newydd wedi cychwyn cais am arolwg barnwrol o'r penderfyniad i gau eu hysgol bresennol er mwyn ei huno gydag ysgol Eglwys Wen mewn un ysgol ar y safle hwnnw, gan roi lle i symud Melin Gruffydd i hen safle yr Eglwys Newydd. (Bwriad y Sir yw gwario £4miliwn ar addasu ac ehangu'r adeilad hwnnw ar gyfer yr ysgol Gymraeg.) Maent yn cyhoeddi iddynt gymryd y cam hwn cyn cael barn eu bargyfreithiwr – cam annoeth yn fy nhyb i. Barnaf nad oes fawr o obaith herio penderfyniad y Sir wedi hir ymgynghori ac, ar ben hynny, benderfyniad y Gweinidog Addysg wedi iddo ystyried yr holl wrthwynebiadau. I lwyddo, rhaid perswadio Barnwr Uchel Lys bod penderfyniadau'r Sir a'r Gweinidog yn rhai na allai Sir rhesymol na Gweinidog rhesymol fyth fod wedi eu cyrraedd. Ni fydd yn ddigon i'r Barnwr deimlo efallai y byddai ef wedi cyrraedd barn wahanol.

Mae adeiladau newydd Glantaf yn parhau i godi ond llai amlwg yw'r gwaith o adnewyddu ac addasu rhai o'r ystafelloedd dosbarth yn yr adeiladau presennol. Dylai'r holl waith ddod i ben erbyn y Nadolig, dau dymor cyn i'r argyfwng lle ddechrau lleihau trwy agor y drydedd ysgol uwchradd ym Medi 2012.

Mae agor trydedd ysgol uwchradd Gymraeg, wrth gwrs, yn golygu newid dalgylchoedd y ddwy bresennol. I'r ysgol newydd y bydd plant Y Berllan Deg, Bro Eirwg, Pen-y-pil a Phenygroes yn mynd – yn hytrach nag i Lantaf, fel ar hyn o bryd. Aros yn nalgylch Glantaf mae Melin Gruffydd, Y Wern, Mynydd Bychan a Glan Morfa, y darn o ddalgylch Pencae sydd i'r dwyrain o afon Taf (sy'n debyg o fod yn ddalgylch i ysgol newydd Glan Ceubal) ac, o 2013 ymlaen, Pwll Coch. Bydd dalgylch Plasmawr yn aros fel y mae, sef yr ysgolion cynradd i'r gorllewin o afon Taf (ac eithrio Pwll Coch a fydd, fel y nodwyd uchod, yn symud i fod yn rhan o ddalgylch Glantaf).

Mae'r Sir wedi dechrau'r broses o sefydlu'r Corff Llywodraethu cysgodol ar gyfer yr ysgol newydd er mwyn iddo weithredu ar fyrder unwaith y bydd y Sir a'r Eglwys Esgobol wedi dod i gytundeb ar bwrcasu safleoedd Sant Teilo a Llanedeyrn. Daw hyn i ben yn ystod mis Mehefin, gobeithio. Tasgau cyntaf y Corff Llywodraethu fydd rhoi enw i'r ysgol newydd a hysbysebu am Bennaeth – i'w benodi cyn diwedd Medi er mwyn iddo fe neu hi fedru dechrau ar y gwaith yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Bydd y flwyddyn academaidd 2011/12 yn un gyffrous unwaith eto wrth i addysg Gymraeg symud yn nes at gynnwys 20% o blant ysgol Caerdydd.

*Michael Jones*

## Boddi Wrth y Lan......Eto

yn dilyn o'r dudalen gyntaf

Yn ogystal â bod yn ergyd i'r cefnogwyr mae methiant Dave Jones (a fe yn y pen draw sy'n gyfrifol) yn ergyd i'r brifddinas a'i heconomi ac, felly, i holl ddarllenwyr Y Dinesydd. Petai City wedi cyrraedd yr Uwch Gynghrair roedd cyfle i ecsploetio llwyddiant y clwb a'i leoliad mewn prifddinas ddeniadol a llewyrchus. Dydy llwyddiant haeddiannol Abertawe ddim yn cynnig yr un cachet – pwy sy'n cofio cyfnodau Barnsley, Coventry a hyd yn oed Reading yn yr Uwch Gynghrair?

Soniais fod bai ar Dave Jones. Do, mae e wedi mynd â ni i ffeinal Cwpan FA ac i drothwy'r Uwch Gynghrair. Do, mae e wedi cynnig y pêl-droed mwya deniadol dwi erioed wedi ei weld mewn bron i 40 mlynedd o wylio. Ond, mae e wedi gwastraffu mwy o gyfleoedd na Chris Pike gynt, gyda thri chyfle da i ennill dyrchafiad yn diflannu. Cyfleoedd euraidd i'n clwb ni esgyn i'r brig a dod ag urddas a statws i bêl-droed yng Nghaerdydd a Chymru.

Cyn i Barc Ninian gael ei ddymchwel, crwydrais o amgylch y stafelloedd newid a'r swyddfeydd a mentrais i mewn i stafell breifat Dave Jones a'i staff. Yn hongian, fel rhyw fath o farc heriol diangen, roedd baner fach Lloegr. Rhaid amau a oedd Dave Jones yn gyfforddus yng Nghymru, a oedd am i dîm o Gymru lwyddo ac a oedd e'n amharchu cefnogwyr Caerdydd o'r cychwyn.

*Gwilym Boore*

## AELWYD HAMDDEN CYMRY CAERDYDD

Mwynhaodd aelodau'r Aelwyd Hamdden ddau gyfarfod diddorol a gwahanol ym mis Mai yn Festri Minny Street. Cyflwynodd y Llywydd, Mrs Mair Morgan, un o'r aelodau ffyddlon, sef Mrs Eirlys Loddo i sôn am Wersyll y Carcharorion yn Henllan, Ceredigion, adeg yr Ail Ryfel Byd. Cyflwynodd ffilm yn sôn am fywyd yr Eidalwyr yn y gwersyll gan ganolbwyntio ar hanes ei gŵr, aned yn Sardinia, a fu yno am gyfnod cyn iddo gyfarfod â hi. Roedd yn ddifyr rhannu'r hanes sut y bu i'r bechgyn droi un o'r cabanau yn eglwys, gydag allor a adeiladwyd allan o wahanol ddefnyddiau dros ben oedd ar gael ar hyd y campws – cyfarfod addysgiadol iawn!

Bythefnos yn ddiweddarach aeth yr aelodau i Fyd y Gân yng nghwmni Arwel ac Eleri Peleg Williams, dau o gerddorion mwyaf dymunol a dawnus ein cenedl. Cafwyd datganiadau hyfryd unigol a deuawdau o weithiau clasurol, eu hoff emynau ac amryw o alawon gwerin oedd wedi apelio atynt dros amser. Soniodd y ddau am gefndir pob cân a'r dylanwadau fu arnynt eu dau drwy eu rhieni, y cerddor a'r organydd Peleg Williams, Caernarfon ac Emrys Evans, Dinas Powys. Cyfeiliwyd iddynt yn gelfydd iawn gan Sandra Semens – cyfarfod i'w gofio!

Croeso i aelodau newydd ymuno â'r gymdeithas groesawgar hon.

# Teyrnged i Arlunydd o'r Ddinas




Yn y Fedwen Lyfrau yng Nghaerdydd, lansiodd Gwasg Carreg Gwalch gyfrol newydd yn y gyfres Syniad Da – cyfrolau ar fusnesau Cymraeg. Yn y gyfrol hon, *Canfas, Cof a Drws Coch*, mae Anthony Evans yr arlunydd yn adrodd ei stori yn dilyn gyrfa fel athro celf cyn mentro troi ei ddawn yn ffon fara, a dod yn un o sylfaenwyr menter gydweithredol Oriel Canfas yn Nhreganna.

Mae gan Anthony Evans arddull arbennig wrth beintio – mae'n creu canfas fflat, tywyll ac yna'n ychwanegu pelydrau'r golau. Mae hynny'n cyd-fynd â'i athroniaeth hefyd, ac meddai: 'Mae arlunwyr yn gweithio o'r tywyllwch i'r goleuni.'

Gall hynny fod yn wir am fyd busnes a byd yr hunangyflogedig yn ogystal – rhaid rhoi naid hyderus i'r tywyllwch ac anelu at y golau yn y pen draw. Bu Anthony yn athro ac mae'n sylweddoli bod pwysau academaidd o fewn y gyfundrefn addysg yn ei gwneud hi'n anodd i berson ifanc fod â hygrededd wrth greu cynllun busnes iddo'i hun sy'n ddibynnol ar ddawn a dychymyg. Mae'n gweld nad yw cyrsiau celf y colegau yn gwneud digon i gyflwyno seiliau busnes ochr yn ochr â'r hyfforddiant celfyddydol er mwyn galluogi'r talentau ifanc i droi eu crefft yn fywoliaeth.

Daw Anthony o Cross Hands yn wreiddiol, ac mae golygfeydd ei blentyndod o ben tipiau glo pyramidaidd Cwm Gwendraeth wedi dylanwadu ar ei bersbectif ac ar ongl ei lygad wrth arlunio. Mae croeso i ymwelwyr yn Oriel Canfas.

## C.R.I.C.C. v Brest U.C.




Er bod ymweliad ar benwythnos canol gwyliau'r Pasg yn golygu bod nifer o deuluoedd CRICC i ffwrdd ac yn methu cynnig llety, cafwyd hyd i le i bob plentyn o Brest.

Chwaraewyd dwy gêm a phrofodd CRICC yn rhy gryf i'r ymwelwyr yn y ddwy. Roedd nifer o fechgyn dan 13 CRICC wedi bod allan i Brest y llynedd ac yn cofio ac yn adnabod rhai o'r gwrthwynebwyr. Dyfarnwyd y ddwy gêm gan Aled Williams oedd yn dioddef ychydig erbyn y diwedd ar ôl yr holl redeg yn y gwres.

Uchod mae llun chwaraewyr y gêm gyntaf.

# Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r DJ Radio 1, Huw Stephens, Yr Eglwys Newydd, a sefydlydd Gŵyl Sŵn y ddinas, ar dderbyn Gradd Er Anrhydedd gan Brifysgol Agored Cymru ar 7 Mai mewn seremoni yn Neuadd Dewi Sant, er mwyn cydnabod ei gyfraniad arbennig i addysg a diwylliant.

Hefyd i Ynyr Roberts, aelod o'r grŵp Brigyn, ar ennill gwobr yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Dingle, County Kerry, yn ddiweddar. Ei gân oedd yr un a enillodd iddo fo a Steve Balsamo y gystadleuaeth Cân i Gymru.

Ac i John Emyr ar ennill Cadair Eisteddfod Môn yn ddiweddar.

Priodwyd Carys Edwards, merch Gareth a Gwen Edwards, Caerdydd, a Stuart White o Coleshill, yn Eglwys y Crwys ar yr 2il o Ebrill 2011. Cyfarfu'r ddau ym Mhrifysgol Aberystwyth ac maent wedi ymgartrefu yn Stratford upon Avon. Dymuniadau gorau.

# Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar cyn gapten llong Robert G. Owen-Ffoulkes, Cyncoed, a fu farw'n dawel yn Ysbyty Llandochau ar 21 Ebrill. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Minny Street ar 12 Mai ac yn Amlosgfa'r Ddraenen, Llanisien.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu y diweddar Geraint Llwyd Williams, Llanisien, a fu farw'n sydyn yn ei gartre, yn 79 oed, ar 1 Mai. Bu'r angladd yn Eglwys y Crwys ar 17 Mai ac yn Amlosgfa'r Ddraenen.

Ac â theulu y diweddar Nan Cook, Rhiwbeina, a fu farw'n dawel yn ei chartre ar ôl salwch hir, ar 7 Mai. Bu'r angladd yn Eglwys yr Holl Saint, Rhiwbeina, ar 19 Mai.

Teulu'r diweddar Elin Mears a fu farw'n dawel yn Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd, ar 8 Mai. Cynhaliwyd ei hangladd, yn ôl ei dymuniad, i'r teulu'n unig.

A theulu'r diweddar Mary Ellen Haines Davies a fu farw yn 94 oed yn Hen Golwyn ar 10 Mai. Bu'r angladd yng Nghapel Horeb, Bae Colwyn, ar 18 Mai ac yn dilyn ym mynwent Bron y Nant.

# Pasport



**Be ydy dy enw di?**
Sioned James

**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Merch y Mans odw i o Landysul, Sir Gaerfyrddin, ond mae fy holl deulu yn hannu o Drefdraeth, Sir Benfro.

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Dwi'n byw gyda fy ngŵr, Gareth, yn Nhreganna, ac wedi byw yn yr ardal honno ers 1998.

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**
Symudais i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn 1994.

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn neu ar ôl symud yma?**
Mi ddes i yma i astudio Cymraeg a Cherddoriaeth ac ar ôl graddio es i syth 'mlaen i weithio gyda chwmnïau teledu cyn diweddu yn y BBC am gyfnod. Yna ces wahoddiad i fwrw prentisiaeth fel Asiant i actorion a chyflwynwyr. O hyn, sefydlwyd Boom Talent o dan adain y cwmni teledu Boomerang Cyf, a dwi wedi bod yn rhedeg y cwmni ers 2007. Mae'r cwmni wedi esblygu i fod yn un sydd yn edrych ar ôl gyrfaoedd talentau cerddorol, lleisiol a chorawl, yn ogystal â chyflwynwyr ac actorion. Mae'n swydd gyffrous ac un sydd yn estyniad perffaith o fy niddordebau allgyrsiol, gan fod y byd cerddorol yn mynd â'm bryd bob awr o'r dydd!

Mi nes i briodi y llynedd, a hynny mewn gwasanaeth yn Llandysul, a'r neithior yng Nghlwb Golff Trefdraeth. Roedd llawer wedi teithio o Hong Kong, UDA, a llawer o Gaerdydd nad oedd yn adnabod prydferthwch diamheuol Trefdraeth. Gwenodd yr haul arnom ni drwy'r dydd ac mi oedd hi'n ddydd o chwerthin, hapusrwydd a lot o ganu gyda Chordydd yn dawnsio yn droednoeth hyd berfeddion y bore. Cwmni da, canu da, a gwin da!

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Mae'r rhan fwyaf o fy amser y tu hwnt i'r gwaith yn ymwneud, rywffordd, â cherddoriaeth. Mi wnes i sefydlu Cordydd nôl yn 2000, ac maen nhw wedi tyfu i fod yn deulu estynedig, yn ffrindiau mynwesol ac yn gôr y gallwn ni i gyd fel aelodau ymfalchïo ynddo. Maen nhw'n strabs, yn weithgar, yn benderfynol, yn driw ac yn anad dim, yn griw croesawgar, a hwylus – yn aml, mae'r ymarferion yn fwy o chwerthin nag o ganu! Dwi'n browd iawn o'n cyraeddiadau, ac mae eleni yn argoeli i fod yn fwy cyffrous nag erioed, gyda phrosiectau mawr ar y gorwel. Ac ar y nodyn hwnnw, ni ddylwn i hepgor Côr y Mochyn Du sydd yn fersiwn 'hŷn' o Gordydd – mae'r criw yma hefyd wedi tyfu i fod yn ffrindiau bore oes, ac mae'n fraint cael arwain y côr ymroddgar hwn. (Mae'n werth mynd i'r Mochyn am beint ar ôl yr ymarfer hefyd!!)

Dwi'n hoff iawn o goginio, fel fy ngŵr hefyd, ac y'n ni'n mwynhau coginio i ffrindiau. Mi fyddwn ni'n mwynhau bwyta mas gyda ffrindiau hefyd – o lefydd fel Côte yn y Bae, i'r King's Arms ym Mhentyrch.

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Fy ffrindiau, ond falle fy morwyn briodas, Heledd Cynwal, yn anad neb! Y'n ni'n rhannu yr un hiwmor plentynaidd. Fy nghi, Bobs, sydd yn ddwl o'i ben i'w draed. Dwi'n un reit wael am gael y giggles hefyd...

**Beth sy'n dy wylltio di?**
Pobl fusneslyd, a phobl sy'n hel clecs. Gyrwyr car gwael, hunanol neu anniolchgar.

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?**
Siopau Wellfield Rd, a phori mewn siopau hen bethau yn *arcades* y Ddinas. Thompson Park yw fy hoff le lle dwi wedi treulio sawl orig ddiog gyda'r ci. Gwell i mi ddweud mai y Mochyn Du yw fy hoff dafarn yng Nghaerdydd, neu caf fy niswyddo o fy swyddogaeth fel arweinydd!

**Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?**
Dwi'n un i fwynhau aros mewn bwthyn neu dŷ yn hytrach na gwesty – dwi'n dueddol o ymlacio'n fwy. Un o'n gwyliau hyfryta' oedd *villa* yng Nghreta, ond mae'n anodd maeddu ein mis mêl i Antigua. Yr Eidal a De Ffrainc fydde fy ngwyliau delfrydol, ond rydym yn ail-wneud tŷ fy Mamgu yn Nhrefdraeth, felly pan fydd hwnnw'n barod, alla i ddim â meddwl am wyliau gwell, boed law neu hindda!

**Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**
Dwi'n dwlu ar y ffaith fod pob ardal yng Nghaerdydd yn gyraeddadwy mewn car, a hynny mewn mater o fwyafrif o 20 munud o ganol y Ddinas. Ac mae galw mewn gyda ffrindiau *ad-hoc* yn un o'r pethe mwya' pleserus am y Brifddinas gan fod pob ardal mor agos.

**Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**
Dal i arwain, dal i weithio yn fy swydd, dal i chwerthin, dal i ddianc i Drefdraeth – ond dal yng Nghaerdydd!

# Ôl Lwybrau

Fe'm ganwyd i yng Nghilfynydd ger Pontypridd yn Nyffryn Taf, pentrefyn bychan gwledig cyn agor pwll glo yr Albion yno yn 1887. Un o Lanengan, Abersoch, oedd 'nhad, ond fe adawodd e'r ardal honno yn ddwyflwydd oed pan ddaeth y teulu bach, Taid, Nain a thri mab bychan i Gilfynydd i Taid gael gwaith yn y pwll. Cymraes oedd Mam, o Sgiwen ger Castell-nedd, yn rhugl ei Chymraeg. Pam, felly, y magwyd fy chwaer a minnau ar aelwyd Saesneg?

Saesneg siaradai ein rhieni â ni, gan droi i'r Gymraeg pan alwai Gweinidog Eglwys Bethel neu un o'r blaenoriaid, ambell ffrind a fynnai siarad Cymraeg – neu Nain Abersoch. Nabyddes i Taid erioed: trigai Nain gyda'i mab hyna, fy Uncle Bob, yn yr un stryd â ni, yr enwog William Street, a galwai yn ein tŷ ni yn aml, a ninnau'n siarad Cymraeg â hi ond yn troi i'r Saesneg unwaith yr oedd hi wedi ymadael. Sefyllfa hollol chwerthinllyd ar un olwg, ond nid yn ein tŷ ni yn unig y digwyddai.

Roedd yr un peth yn wir mewn teuluoedd eraill a ddaethai o wahanol rannau o Gymru, a Saesneg a siaradwn â nhw bob amser. Ond roedd y pwll glo wedi denu Saeson hefyd, fel o Wlad yr Haf, a phobl o Iwerddon – a hwyrach mai nhw oedd y broblem! Rwy'n cofio tad un o'm ffrindiau yn dweud wrthyf, wedi i mi brifio tipyn a dechrau holi: "Pe bawn i'n siarad Cymraeg yng nghlyw y Saeson 'ma, fe fydden nhw'n credu mod i ddim yn medru siarad Saesneg." – ac roedd medru siarad Saesneg yn bwysig, wrth gwrs!

Saesneg siaradai 'nhad â'i ddau frawd, a weithiai yn yr un pwll, ac â'i gydweithwyr eraill, gan ddefnyddio 'iaith y colier' – termau megis *the gob, headings, double parting, stalls, racing a dram, the ripper*, ac yn y blaen. Oedd yna byllau glo, tybed, mewn rhannau eraill o Gymru, lle defnyddiai'r gweithwyr dermau Cymraeg yn lle'r rheiny ddefnyddiai bois yr Albion? Fe hoffwn wybod yn fawr!

*D. Gwyn Jones, Cyncoed*

# Colofnydd y Mis

## Gwen Emyr

**Cyfryngau i'w trysori**

Yn y Fedwen Lyfrau, a gynhaliwyd ddechrau Mai am y tro cyntaf yng Nghaerdydd, cawsom ein hatgoffa o'r fraint a gawn – boed mewn dinas, bro neu bentref – pan ymgasglwn ynghyd. Yn wir, rhwng y chwerthin, y sgwrsio a'r lansio llyfrau, roedd canolfan y Gate yn fwrlwm o hwyl a phrysurdeb. Roedd yn gyfle hefyd i roi'r byd yn ei le uwch paned a phryd yn y caffe chwaethus.

Yr un wythnos roedd albwm newydd, *Cainc*, Gwyneth Glyn a'r Band yn cael ei lansio yn Y Fuwch Goch. Mae ambell gân ar y cryno-ddisg yn ffrwyth ei thaith hi a'i phriod, Dafydd Emyr, i Dde America. A daw hyn â mi at y llinynnau cyswllt gwerthfawr sy'n ein cysylltu â phobl y Wladfa.

Yng nghyfarfod diweddaraf Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De, cawsom sgwrs gan Walter Ariel Brooks, o Goleg Prifysgol Caerdydd, am hanes *Y Drafod*, sef papur newydd y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia ers 120 o flynyddoedd. Esboniwyd wrthym i'r papur ddatblygu'n gyhoeddiad tebyg i bapur bro ar ôl i Irma Hughes de Jones ymgymryd â'r gwaith o'i olygu yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Calonogwyd hi yn niwedd ei hoes, wedi hanner canrif o olygu'r *Drafod*, wrth weld adfywiad yn y defnydd o'r Gymraeg. Credir i'r *Drafod* chwarae rhan allweddol yn yr adfywiad hwnnw drwy ddwyn pobl y Wladfa ynghyd i gyfarfod, cyngerdd, eisteddfod neu gymanfa drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Sbaeneg.

Daw hyn â ni yn ôl at gyfraniad gwerthfawr papur bro *Y Dinesydd* i'n sefyllfa ninnau yma yn ninas Caerdydd. O'r cychwyn cyntaf, bu'n ddolen effeithiol sy'n cysylltu siaradwyr Cymraeg y ddinas. Beth bynnag fo'n cefndir a'n hargyhoeddiadau, mae'n fodd i'n hatgoffa o'r arlwy cyfoethog sydd ar ein cyfer yn wythnosol drwy'r calendr a'r hysbysebion. Buan iawn y byddem yn cwyno pe bai'r cyfrwng hwn yn dod i ben. Felly, dymunwn bob llwyddiant i'r *Dinesydd* a rhown ein diolch i'r rhai sy'n ymlafnio yn y cefndir er ein mwyn.

Mae'r un peth yn wir am raglenni fel *Wedi 7* ac *Wedi 3* sydd, fel y papurau bro, yn gyfryngau o wir bwys i wlad a thref a chenedl gan eu bod yn llwyddo i roi ymdeimlad cyson o hunaniaeth a pharhad. Pob llwyddiant a llewyrch i'r cyfryngau gwerthfawr hyn.

A dyma oedd gan y diweddar Archdderwydd Dic Jones i'w ddweud am bapurau bro:

**Papur Bro**

Eich manion chwi a minnau – yw deunydd
dinod ei golofnau,
Eto'i nerth yw ein tynhau'n
Ein dibwys ddiddordebau.

# Cymdeithas Carnhuanawc

O dan gadeiryddiaeth Keith Bush mae Pwyllgor Cymdeithas Carnhuanawc eisoes wedi dechrau trefnu eu rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ond tydi eleni heb orffen eto ac mae digonedd o weithgareddau o hyn i ddiwedd 2011.

Beth am i chi ymuno â ni yn Helfa Drysor Tafwyl ar nos Wener, Mehefin 17eg? Byddwn yn mynd o amgylch Penarth yn chwilio am y cliwiau a osodir gan Keith Bush, gan gychwyn o flaen yr Orsaf am 6.30 a gorffen yn nhafarn y Windsor i rannu profiadau a sgwrsio.

Ar Orffennaf 9fed byddwn yn mynd ar daith i ardal Tir Iarll o dan arweiniad Alan James, gan gychwyn am 10.30 yn nhafarn yr Hen Dŷ. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

Grahame Davies yw ein Siaradwr Gwadd yn Narlith Carnhuanawc ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni; dydd Mercher am 12.00 o'r gloch ym Mhabell y Cymdeithasau 2. Testun y ddarlith fydd: 'Cymru ac Islam'. Yna, nos Fercher, byddwn yn ymuno ag aelodau Cymdeithas Ffynhonnau Cymru i ymweld â Ffynnon Gwenffrewi.

Bydd ein Gwibdaith Haf eleni yn mynd i'r Hen Ogledd. Edrychwn ymlaen at daith ddiddorol ac addysgiadol o dan arweiniad Keith Bush.

Gellwch ddal i fyny â'r newyddion diweddara' ar y Wefan – www.carnhuanawc.org

# Cymdeithas Wyddonol Caerdydd

Daeth ein tymor i ben gydag ymweliad Yr Athro Ken Morgan o Brifysgol Abertawe. Yn gynnar yn ei fywyd bu'n ddisgbl yn Ysgol Fabanod Copperworks, Ysgol Iau Lakefield ac Ysgol Ramadeg y Bechgyn, y tair yn Llanelli. Aeth ymlaen i Brifysgol Bryste lle enillodd radd gychwynnol a doethuriaeth mewn mathemateg.

Mae pwyslais ei ymchwil ar ddefnyddio mathemateg at greu modelau damcaniaethol o lif aer dros gerbydau cyflym, awyrennau a cheir. Yn y cyfarfod hwn cawsom y newyddion diweddaraf am y prosiect *Bloodhound*, sef cais i dorri'r record byd am gyflymder car yn symud ar y tir. Saif y record presennol oddeutu 760 milltir yr awr.

Mae'n amodol bod gyrrwr yn y car a bod y car yn symud bob cam ar y tir ar olwynion. Er mwyn torri'r record rhaid i'r car gyrraedd y nod trwy deithio ddwywaith mewn awr ar hyd llwybr o filltir. Cawsom olwg ar gymhlethdod y dadansoddi o ffactorau allweddol, megis, dwysedd a phwysedd yr awyr, cyflwr y tir ac yn y blaen. Am resymau technegol rhaid defnyddio olwynion metel; ni fyddai rwber yn medru gwrthsefyll yr amodau.

Dylunir siâp y car i sicrhau na fydd y blaen yn codi, fel sy'n tueddu digwydd ar gyflymder uchel. Mae'r cyfan yn dibynnu ar ddawn mathemategwyr ac arbenigwyr cyfrifiadeg i greu a defnyddio hafaliadau at lunio efelychiadau ymddygiad, a chynnal arbrofion mewn twnel gwynt. Ar sail y canlyniadau hyn bydd y gwyddonwyr yn darogan ymddygiad y car ac yn symud at ei wneuthur yn unol â'r darogan. Wel, ie, digon trefnus, hawdd hyd yn oed. Ble mae'r fenter a'r her? Un car fydd, a chost y fenter, ar y cyfrif diweddaraf, oddeutu £13 miliwn. Cynhelir y cynnig yn 2012 yn Ne Affrica gan mai yno y cafwyd tir digon gwastad. Brithodd y siaradwr ei draethiad gyda sawl fideo yn cyfleu darlun a sŵn.

Roedd ymweliad Yr Athro Morgan yn amserol oherwydd roedd hyn yn gyfle i Gadeirydd y cyfarfod ddangos i'r aelodau set o bedwar poster dan y teitl Gwyddonwyr Cymru, a thynnu sylw pawb at lun o'r ymwelydd ar un ohonynt. Cwblhawyd y posteri yn ddiweddar ac anfonwyd set i bob ysgol yng Nghymru, heblaw am ysgolion sy'n darparu ar gyfer babanod yn unig. Noddir rhan o'r prosiect gan Lywodraeth Cymru. Y gobaith yw y bydd disgyblion Cymru, wrth gael eu denu at y posteri hynod liwgar, yn dysgu rhywbeth am rai enwogion ac yn nodi bod pob un wedi derbyn addysg ysgol, yn rhannol neu gyflawn, yng Nghymru. Efallai, ar gefn hyn, bydd rhai am fod yn wyddonwyr. Holwch amdanynt yn eich ysgol leol.

Yn y cyfarfod blynyddol hefyd ar yr un noson, ailetholwyd y swyddogion: Neville Evans yn Gadeirydd, Rhys Morris a Cerian Angharad yn Gyd-ysgrifenyddion. Dewch i'r wledd nesaf ym mis Hydref.

## PÊL-DROED YN GYMRAEG

Llongyfarchiadau i Gôl am roi cymaint o bwyslais ar bêl-droed i blant, gan roi lle teilwng i'r Gymraeg. Mae'r cyrsiau yn denu rhyw 200 o blant i'r ganolfan bob bore Sadwrn gyda tua deuparth rhan yn derbyn gwersi yn Gymraeg. Mae merched yn mynychu ar foreau Sadwrn ond mae hefyd sesiynau penodol i ferched ar foreau Sul. Ym mis Medi bydd hyfforddiant yn cychwyn i blant 4-11 oed.

Mae'r plant sy'n ymuno ag ysgolion pêl-droed Gôl yn cael cyfle i ymuno â strwythur timau pêl-droed yr Urdd. Wedyn mae cyfle iddyn nhw ymuno â Chlwb Cymric - mae 5 neu 6 eisoes wedi gwneud hyn, ac un wedi cyrraedd y tîm cyntaf! Mae darpariaeth Gymraeg ar gyfer pêl-droed yn y brifddinas, felly, bron o'r crud i'r bedd.

Mae'n destun balchder i Gôl fod tair o'r hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith yn cynrychioli timau merched Cymru a Chaerdydd. Yn ddiweddar, chwaraeodd Natasha Harding, sy'n gapten ar glwb menywod Caerdydd, Nia Jones ac Aimee Lee yn y gêm pan sicrhaodd y clwb ddyrchafiad i'r Uwch Gynghrair, gyda Aimee a Nia yn sgorio'r goliau tyngedfennol.

Mae Gôl hefyd yn darparu ysgolion pêl-droed yn ystod gwyliau ysgol. I ymuno â'r hwyl ffoniwch 029 20 375760.

**Nant Gwrtheyrn**

**www.nantgwrtheyrn.org**

**Noson am bris 3 yn ein bythynnod 4 Seren hunan-arlwyo!**

**Dewch i ddyffryn hudolus, godidog mewn ardal o harddwch.**

**Manteisiwch ar y cyfle! (cyfeirnod MS01)**

**Ffôn: 01758 750334**
**Ebost: post@nantgwrtheyrn.org**

## Merched Y Wawr

Mai y 10fed â Mr Walter Jones yn ein cwmni yn trafod hen greiriau. Mae Mr Jones yn gweithio yn Sain Ffagan a benthycodd rai o'r casgliad i'w dangos inni. Roedd un neu ddau yn gyfarwydd ac eraill yn peri cryn ddyfalwch i'r merched, er enghraifft, y gwneuthurwr clocsiau.


*Kathleen Wood*

# Y Dinesair
Rhif 114

Croesair gan Rhian Williams

Atebion:
22 Heol Cae Rhys
Rhiwbeina
CF14 6AN

i gyrraedd erbyn 20 Mehefin



### Ar Draws
1. Hyfryd yw tir Lloegr yn ei geg. (6)
5. Ys gwn i a etyb Dafydd? (5)
8. Mae'r haf heb ddechrau ar ffyrdd yr anesmwyth. (7)
9. Daw o'r neithdar yng Nghwm Elan. (3)
10. Faint sydd ar ddiwedd blwyddyn goffa Nedw? (3)
11. Yng nghysgod hwn mae stori. (7)
12. Y garw yn drynu Morus wedi hanner olaf Awst. (7)
15. Ar frys teg i achosi cynnwrf. (7)
17. Bwled ar darfu ar y llys barn. (7)
19. Llwybr sy'n troi'n ôl. (3)
20. Cywasgu'r marwor yn ddŵr. (3)
21. 'Dacw'r tŷ lle'm ganed. Ond wele, rhwng __ __ __ Mae lleisiau a drychiolaethau ar hyd y lle'. (THPW) (4, 1, 2)
22. 'O! Foroedd o ddoethineb __ __ y Duwdod mawr. (WW) (4, 1, 2)
Y gwir un - mae heb ei debyg. (7)

### I Lawr
1. Mae rhywbeth nerthol mewn awgrymu syml. (6)
2. 'Dilyn __ __ __ __ a dawnsio ar ôl pob ffliwt.
A boddi hymn yr Eiriolaeth â rhigwm yr Absoliwt. (Gwennallt) (2, 2, 3, 6)
3. Deio yn cymryd y bai am y cynhyrchydd ynni. (7)
4. Gras yw ei ddosbarthu yn y cyfnod cyn y Pasg. (6)
5. Darn o gae nid byr o wair bob yn ail. (5)
6. 'I ddilyn yr og ar ochr y Glog
A chanlyn yr arad goch
Ar __ __ __ __.' (Ceiriog) (3, 1, 5, 4)
7. Smalio rhoi cysur. (6)
13. Buddug yn trin baglu mewn baw. (7)
14. Tyllu drwy Ebrill yn ddigalon i ddim. (6)
15. Yn y bocs mae cnewyllyn ateb Alec yn dywyll. (6)
16. 'Gwelais ei fen liw nos
Ar gytir __ y dref' (Eifion Wyn) (6)
18. Mieri yn y ffos yn Lloegr. (5)

**ATEBION RHIF 113**

**Ar Draws**
1. Er ys talm; 6. Colli; 8. Dilety; 9. Gofyn; 10. Llwyfannau; 13. Cnul; 14. Yfed; 15. Cyfeillachu; 18. Oedau; 19. Euraid; 20. Isel; 21. Diweddglo.

**I Lawr**
2. Reis; 3. Sied; 4. Ar y bws i'r lleuad; 5. Mi gofiai'i chwerw; 6. Cyfanfyd; 7. Llansawel; 11. Yn gyfoes; 12. Blaendal; 16. Pridd; 17. Ffiol

Ennillydd Rhif 113
Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd

BAY Resourcing

Asiantaeth Cyflenwi Athrawon




Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol gallwn gynnig:

**Gwaith Rheolaidd**
•
**Amserlenni a dyddiadur ar-lein**
•
**Cyfraddau dyddiol cystadleuol**
•
**Lwfans Teithio a Chinio**

Gwe: www.bayresourcing.com Ebost: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE

S4/C

# y Goets Fawr




Bydd S4C yn camu mewn hanes wrth i hen **Goets Fawr** draddodiadol y Post Brenhinol cael ei gludo gan geffylau ar hyd strydoedd Gogledd Cymru.

Y cyflwynydd Ifan Jones Evans fydd ar y goets yn dysgu mwy am ei hanes a llwybr yr hen Bost Brenhinol o Lundain i Iwerddon, yn mwynhau gwisg, bwyd ac adloniant sy'n driw i'r cyfnod a chyfarfod llu o gyfranwyr ar hyd y daith. Hyn oll cyn iddo gyrraedd digwyddiadau arbennig gyda'r nos.

Bob nos bydd Ifan yn ymuno â'r gantores opera Shân Cothi mewn lleoliadau ar hyd y daith, i'w darlledu'n fyw ar S4C. Mae yna groeso cynnes i bawb i gamu nôl i'r gorffennol ac ymuno yn yr hwyl yn y digwyddiadau traddodiadol, sy'n cynnwys gemau tafarn, ffair cyflogi a noson werin.

Cyfnod 1808 yw'r cyfnod dan sylw yn y gyfres newydd ar S4C. Dyma gyfnod pan fu'n rhaid newid llwybr y daith er mwyn cyflymu'r post. Coets fawr a thimau o bedwar ceffyl oedd y ffordd orau i gludo'r post cyn dyfodiad y rheilffyrdd. Y llwybr newydd hon fydd y tîm yn ei ddilyn yn ystod yr wythnos.

Fe fydd y goets yn gadael canol ddinas Llundain a chawn ymuno ag Ifan wrth i'r goets gyrraedd Cymru yn y Waun, ger Croesoswallt, dydd Sul 26 Mehefin.

Un o gymeriadau mwyaf poblogaidd ardal Bangor, Gari Wyn, fydd yn adrodd hynt a helynt y goets fawr yn ystod y daith. Gwyn Williams o Ffarmers a pherchennog Tristar fydd yn gyfrifol am yrru'r goets ar hyd y siwrne.

## Y Goets Fawr
Sul – Iau, 26–30 Mehefin

s4c.co.uk/ygoetsfawr



Daniel Williams, mab Gwyn Williams, gydag Ifan Jones Evans a Shân Cothi

# Y Goets Fawr yn eich ardal chi... Caerdydd

Mae gwaith ymchwil manwl wedi'i wneud ar bob agwedd o fywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn sicrhau bod cyfres **Y Goets Fawr** yn driw i'r cyfnod. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae tîm o ymchwilwyr wedi bod yn twrio drwy lyfrau a phori ar y we er mwyn dod o hyd i straeon, cymeriadau ac arbenigwyr coetsis.

Un o'r arbenigwyr hynny yw Herbert Williams, newyddiadurwr sy'n byw yng Nghaerdydd. Nôl yn y 1970au, ysgrifennodd Herbert y llyfr *Stage Coaches in Wales* oedd yn manylu ar bob peth yn ymwneud â'r hen lon bost – ymhell cyn dyfodiad y rheilffyrdd.

Yn y llyfr, mae yna chwedlau am ddamweiniau, llwyddiannau a gwrthdaro rhwng perchnogion y tafarndai a bu'n agoriad llygaid i dîm cynhyrchu **Y Goets Fawr** i ddeall yr hyn oedd yn codi ar daith y post.

menter caerdydd

### Staff Newydd

Roeddem yn falch iawn i groesawu dwy aelod newydd i dîm Menter Caerdydd dros y misoedd diwethaf. Mae Celia Parry wedi ymuno â ni dridie yr wythnos fel Swyddog Gweinyddol, ac fe fydd Mari Elin Waddington yn ymgymryd â dyletswyddau PR a'r Wasg. Croeso mawr i'r ddwy ohonoch chi!

### Sticeri Car 'CYMRY CAERDYDD'

Rydym wedi gorfod ail archebu mwy o sticeri ar ôl i'r sticeri redeg allan o fewn dyddiau! Mae'n braf dechrau gweld y sticeri ar geir ar hyd a lled y ddinas! Os hoffech sticer car yn rhad ac am ddim, cysylltwch â ni'n y swyddfa.

### Cynlluniau Gofal Gwyliau'r Haf

Ysgol Melin Gruffydd:
Gorff. 25 – Medi 2 (6 wythnos)
Ysgol Treganna:
Gorff. 25 – Awst 26 (5 wythnos)
8.30am – 5.30pm
£15 y diwrnod; Croeso i ddisgyblion o Ddosbarth Derbyn, i Flwyddyn 6.
Tripiau,gweithdai, ymweliadau, gweithgareddau crefft a choginio, chwaraeon ayyb.
Cysylltwch â meleri@mentercaerdydd.org

### Tafwyl 2011

Fe fydd Gŵyl Tafwyl yn dechrau ddydd Llun, Mehefin 13, gyda'r Ŵyl Feithrin yn Sain Ffagan. Mae copi o daflen yr Ŵyl ar gael yn eich Dinesydd y mis hwn.

### Bwrlwm - Chwarae Rhydd i Blant

Mae plant Caerdydd wedi mwynhau Chwarae Rhydd trwy gyfrwg y Gymraeg yn ystod gwyliau'r Pasg. Cynhaliwyd pedwar sesiwn Chwarae Rhydd Cymraeg newydd, wedi eu trefnu gan y Fenter, yn Splot, Caerau, Y Tyllgoed a Llanederyn. Bu dros 150 o blant rhwng pump a 15 oed yn mwynhau gweithgareddau Chwarae Rhydd, yn cynnwys chwaraeon, celf a chrefft, coginio, paentio wynebau, barbiciw, ac ystod eang o weithgareddau eraill.

Fel yr esbonia Siân Lewis, Prif Swyddog Menter Caerdydd: "Mae'r Cyngor wedi ymateb i ofynion cynyddol gan blant a rhieni ar gyfer darparu Chwarae Rhydd trwy gyfrwng y Gymraeg a diolch i gefnogaeth Cyngor Caerdydd rydym wedi gallu datblygu'r gwasanaeth pwysig hwn."

### Miri Meithrin



Canu gyda Hei-Di-Ho yn Miri Meithrin y Pasg yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn

### Taith i Oakwood



Cafwyd diwrnod gwych a gwlyb yn Oakwood yn ystod gwyliau'r Pasg. Trefnwyd y daith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 yn Glantaf a Phlasmawr.

### Cwrs Syrffio i Oedolion



Dydd Sadwrn 21ain o Fai aeth criw o 10 i Langennydd am wers syrffio. Er gwaethaf y tywydd gwyntog roedd pawb wedi mwynhau a phawb, bron, wedi llwyddo i sefyll ar y bwrdd syrffio!

# Cantorion Ardwyn yn y Fatican

Bu Cantorion Ardwyn, Caerdydd, dan arweinyddiaeth David Leggett a'n cyfeilyddes Janice Ball, yn brysur iawn yn ystod cyfnod y Pasg eleni a'r uchafbwynt, heb os nag oni bai, oedd canu yn yr offeren ar ddydd Llun y Pasg wrth yr Uwch Allor ym Masilica San Pedr yn y Fatican yn Rhufain.

Bythefnos cyn cychwyn ar y daith i'r Eidal cynhaliwyd dau gyngerdd paratoadol a pherfformiwyd darnau gan Palestrina, Victoria, Mendelssohn, John Ireland a Whitacre. Ar fore Sul y Blodau, petaech wedi gwrando ar y *Morning Service* ar Radio 4 byddech wedi clywed y côr yn canu'n fyw o Eglwys Sant Arvans ger Casgwent. Derbyniwyd canmoliaeth uchel gan Bennaeth Rhaglenni Crefyddol Radio 4 am berfformiad caboledig.

Yna ar Sadwrn y Pasg dyma gychwyn am Rufain a Tuscany a phawb yn edrych ymlaen at y daith. Trannoeth, sef Sul y Pasg, arweiniwyd ni o gwmpas Rhufain gan dywysydd profiadol ac er bod ein traed yn protestio ar ôl tair awr o gerdded, teimlai pawb ein bod wedi derbyn gwybodaeth fanwl a diddorol am nifer o brif atyniadau'r ddinas ryfeddol hon.

A dyma'r awr fawr – bore Llun y Pasg – a ninnau yn sgwâr San Pedr yn y Fatican. Yn union ar ôl cyrraedd y sgwâr cawsom gais am gân, a pherfformiwyd Cennin Aur yn y fan a'r lle er mawr foddhad i'r dyrfa o'n cwmpas. Anodd yw dod o hyd i eiriau i fynegi y teimlad a'r emosiwn o gael ein harwain i mewn i ehangder ysblenydd y Basilica a chael ein tywys heibio i'r nenlen uwchben beddrod San Pedr ac ymlaen hyd at yr Uwch Allor.



Cantorion Ardwyn Caerdydd o flaen yr Uwch Allor yn Basilica Sant Pedr yn Rhufain

Tipyn o gyfrifoldeb oedd sicrhau ein bod yn codi ac yn eistedd gan ymateb ar yr adegau cywir yn ystod yr offeren ond cylfawnodd David Leggett y dasg gyda'i urddas a'i broffesiynoldeb arferol. Yn ystod y cymun canon ni *Ave Verum*, William Byrd, a *Beati Quorum Via*, Syr Charles Stanford, ac yna *Alleluia* Randall Thompson wrth i'r gynulleidfa adael. Braf oedd gweld bod y mwyafrif o'r saith cant oedd yn bresennol yn dal i aros yn gwrando a chawsom gymeradwyaeth frwdfrydig. Profiad bythgofiadwy!

Y noson ganlynol cynhaliwyd cyngerdd yn Eglwys Sant Eustachio ger y Panthenon, a phleser oedd rhannu llwyfan gyda Coro Cittadi Roma – côr ardderchog. Gwerthfawrogwyd yn arbennig ddatganiad Janice Ball ar yr organ o'r 3ydd 'Sketch' o'r bedair gan Schumann.

Trannoeth ffarweliwyd â phrysurdeb Rhufain gan anelu trwyn y bws tuag at Motecatini Terme – tref spa hynod o ddeniadol. Cynhaliwyd cyngerdd arall yn yr ardal gyfagos yn y Teatro Alfieri Castilnuovo di Carfagnana. Yma ymunodd côr meibion a chôr eglwysig lleol â ni, a mwynheuon ni gymdeithasu yn y wledd fendigedig a baratowyd ar ein cyfer.

Cyn dychwelyd cawsom ddiwrnod i ymlacio a siawns i drin a thrafod yr holl brofiadau amrywiol a fwynhawyd yn ystod y daith. Ar ôl ymweld a thŵr Pissa dychwelom adre yn griw blinedig ond bodlon.

# La Belle E'poque

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays**

Eisiau cipolwg clou ar fywyd Bohemaidd Paris ddiwedd y 19eg ganrif? Ewch i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, i weld *High Kicks and Low Life: Printiau Toulouse-Lautrec*. Mae'r arddangosfa fach ddiddorol hon yn cynnwys tua 50 o brintiau gan yr artist, sydd ar fenthyg o gasgliadau'r Amgueddfa Brydeinig ac sydd ar daith gyda chymorth hael Sefydliad Dorset.

Cewch weld delweddau trawiadol iawn o ddawnswraig enwog y can-can, Louise Weber, ynghyd â phortreadau sensitif a chraff eraill o actoresau, dawnswyr a phuteiniaid ardal Montmartre, a chlybiau fel y Moulin Rouge. Oherwydd y goleuo dychmygus a'r cefndir du, dramatig sydd i'r arddangosfa, gallech feddwl eich bod yn rhan o'r *joie de vivre* mewn theatr neu glwb o'r cyfnod. Fe welwch nodweddion cyfarwydd Toulouse-Lautrec yn glir yma, gyda'r trawiadau brwsh hir, main, a chynnil, a'i ddull afluniaidd, gartwnaidd o grynhoi cymeriad. Ond mae yma ryw dristwch hefyd tu ôl i'w gelfyddyd, o gofio iddo gael ei watwar achos ei anabledd, a'i fod, yn sgil hynny, yn gaeth i alcohol.




Henri de Toulouse-Lautrec (1864–1901), Divan Japonais, 1893. Lithograff lliw mewn inc du, oren, melyn a gwyrdd olewydd. © Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig


Bydd yr arddangosfa yno hyd 26 Mehefin eleni. Diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae mynediad am ddim i'r Amgueddfa.

Am fwy o wybodaeth ewch i

www.amgueddfacymru.ac.uk

*Ann Saer*

# Y Ddraig a'r Cilgant




Oni bai am Islâm mae'n bosibl na fyddai gennym Lywelyn Fawr na Llywelyn ein Llyw Olaf, ac y byddai hanes Cymru wedi bod yn bur wahanol. O leiaf, dyna awgrym llyfr newydd gan Grahame Davies, *The Dragon and the Crescent: Welsh Encounters with Islam*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Seren Books.

Pan ddaeth y Normaniaid i Brydain yn 1066 fe goncrwyd Lloegr yn gyflym iawn ganddynt, ond fe gymerodd ddwy ganrif iddynt orffen concro Cymru, pan laddwyd Llywelyn y Llyw Olaf yn 1282. Yr oedd mynydd-dir Cymru yn llawer anos i'w goncro na Lloegr, wrth gwrs, ond fe sianelwyd llawer o adnoddau milwrol Lloegr yn ystod y canrifoedd hynny i ymladd yn y Croesgadau yn erbyn y Mwslemiaid a oedd wedi meddiannu Jerwsalem, ac y mae'n arwyddocaol, efallai, fod concro Cymru yn cyd-daro'n fras â diwedd y Croesgadau. Yn wir, y mae'n bosibl fod cestyll Cymreig Edward I wedi'u hysbrydoli gan y cestyll y daethai ar eu traws tra oedd yn ymladd yn y Croesgadau.

Mae hyn yn pwysleisio pa mor hir a chymhleth yw'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Islâm. I'r rheini ohonom sy'n tueddu i feddwl am y cysylltiadau hyn fel rhywbeth lled ddiweddar, bydd llyfr Grahame Davies yn gryn agoriad llygad, oherwydd mewn 432 o dudalennau sydd yn ffrwyth chwilota diwyd ar ei ran mewn rhychwant eang o ffynonellau, fe gawn ein cyflwyno i 900 o flynyddoedd o ymwneud Cymru ac Islâm. Roedd llawer o'r ymwneud hwnnw yn digwydd y tu allan i Gymru, wrth i deithwyr a phererinion, cenhadon, milwyr a morwyr, ddod ar draws Mwslemiaid dramor a chofnodi eu hargraffiadau. Ond rhaid cofio hefyd, wrth gwrs, fod yn ardal dociau Caerdydd un o'r cymunedau Mwslemaidd hynaf yng ngwledydd Prydain; ac amcangyfrifir bod rhyw 75,000 o bobl yn arddel Islâm yng Nghymru heddiw.

Negyddol at ei gilydd fu ymateb y Cymry i'r byd Islamaidd dros y canrifoedd, a barnu oddi wrth dystiolaeth y llyfr hwn. Nid yw hynny'n syndod efallai, am resymau crefyddol ac oherwydd y gwrthdaro hir rhwng Prydain ac Ymerodraeth Twrci, ac y mae'n drawiadol o wahanol i'r agweddau llawer mwy cadarnhaol tuag at yr Iddewon, yn enwedig ymhlith Ymneilltuwyr Cymru, a welwn yn chwaer-gyfrol Grahame Davies, *The Chosen People: Wales & the Jews* (2002), sy'n olrhain yr ymateb i'r Iddewon yn llenyddiaeth Cymru. Ac y mae gan hynny gysylltiad uniongyrchol â'r gwrthdaro presennol rhwng Mwslem ac Iddew yn y Dwyrain Canol heddiw, oherwydd oni bai am ddylanwad ei fagwraeth Ymneilltuol Gymreig ar David Lloyd George, mae'n bosibl na fyddai gwladwriaeth Israel yn bod heddiw (na'n gwladwriaeth les ninnau ychwaith o ran hynny).

Er ei fod yn byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach, un o Goed-poeth ger Wrecsam yw Grahame Davies. Fe'i magwyd felly yn agos iawn i Rosllannerchrugog. Bu Margaret Jones o'r Rhos yn genhades Gristnogol yng Nghanaan ac ym Moroco yn Oes Victoria, ac ysgrifennodd lyfrau pwysig am ei chyfnodau yn y ddwy wlad ac am ei hymwneud â Mwslemiaid yn y gwledydd hynny. Trwy gyd-ddigwyddiad rhyfedd, tua'r un pryd ag y cyhoeddwyd cyfrol Grahame Davies ar Islâm, ymddangosodd cyfrol gan Eirian Jones o wasg y Lolfa o dan y teitl *Y Gymraes o Ganaan: Anturiaethau Margaret Jones ar Bum Cyfandir*. Afraid dweud fod Islâm ac amlddiwylliannedd yn faterion sy'n cael llawer o sylw yn y wasg a'r cyfryngau y dyddiau hyn, ac y mae llyfrau Grahame Davies ac Eirian Jones ill dau i'w croesawu fel cyfraniadau amserol i'r drafodaeth gyfoes ac oherwydd y goleuni a deflir ganddynt ar y cefndir hanesyddol.

*E. Wyn James*



# Croeso - Velkommen



Cafodd yr Eglwys Norwyaidd enwog ar lan y dŵr ym Mae Caerdydd ei hailagor ar ei newydd wedd ddydd Mawrth 17 Mai – y diwrnod yr oedd pobl Norwy yn dathlu eu diwrnod cenedlaethol. Dethlir Diwrnod Norwy yn flynyddol ar 17 Mai ac yng Nghaerdydd mae nifer o aelodau Cymdeithas Cymru Norwy yn mynychu mewn gwisg draddodiadol i weld seremoni codi'r faner yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd.

Mae'r gwaith ailwampio'n cynnwys teras newydd ac estyniad i'r caffi yn ogystal â phlatfform sy'n codi at yr oriel a'r man arddangos ar y llawr cyntaf. Bydd y gwaith yn rhoi hwb mawr i'r ganolfan, ac mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau ar y gweill ar gyfer y misoedd i ddod.

## Cyhoeddi Eisteddfod y Fro

Dydd Sadwrn, Mehefin 25ain, bydd tref Y Barri yn cael ei thrawsnewid wrth i Ŵyl y Cyhoeddi gael ei chynnal yng Ngerddi Gladstone yng nghanol y dref i ddathlu bod yr Eisteddfod yn ymweld â Bro Morgannwg y flwyddyn nesaf.

Mae llwyfannau perfformio wedi eu trefnu yn Sgwâr y Brenin yn y bore ac ym Mharc Gladstone yn y prynhawn, i roi cyfle i rai o ddoniau'r ardal berfformio yn ystod y dydd – mae dros 15 o gorau, ysgolion, partïon a grwpiau dawns wedi ymateb gyda diddordeb i gymryd rhan!
Yn ogystal â hyn oll, bydd yr Orsedd yn gorymdeithio drwy'r dref fel rhan o Seremoni'r Cyhoeddi. Bydd yr Orymdaith yn teithio ar hyd Holton Road cyn dod i ben ei thaith yng Ngerddi Gladstone ar gyfer y Seremoni ei hun.

Yn ystod y Seremoni cyflwynir y copi cyntaf o'r Rhestr Testunau i'r Archdderwydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith lleol, Dr Dylan Jones. Unwaith mae'r rhestr wedi ei chyflwyno, mae'n mynd ar werth i'r cyhoedd, er mwyn i'r gwaith o baratoi ar gyfer y cystadlaethau gychwyn.



Dr Dylan Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Mae'n Seremoni urddasol a lliwgar ac yn sicr o ddenu sylw at yr Eisteddfod ac ennyn diddordeb yn yr hyn a fydd yn digwydd yn y Fro ymhen tri mis a deg.

Cynhelir Cymanfa Ganu'r Cyhoeddi nos Sul, Mehefin 26ain, am 8 o'r gloch yn Eglwys Awstin Sant, Penarth, dan arweinyddiaeth Eleri Roberts. Croeso i bawb.

## Rysáit Mis Mehefin



**Aeron Hudolus Merlyn**
Gan Nerys Howell
Ymgynghoriaeth Bwyd Howel

**Digon i 4**

**Cynwysion**

150ml / 5 owns hylifol hufen dwbl ffres
75g / 3 owns siocled gwyn wedi'i dorri'n ddarnau
2 llond llwy fwrdd o wirod hufen (fel Merlyn)
275g / 10 owns aeron cymysg, fel mafon, mefus, llusi duon bach, wedi'u golchi.

**Dull**

Toddwch y siocled gyda'r hufen dros wres isel mewn sosban fach.
Tynnwch y sosban oddi ar y gwres ac ychwanegwch y gwirod.
Paratowch y ffrwythau drwy hanneri neu chwarteri'r rhai mawrion a'u cymysgu gyda'i gilydd, a'u dosbarthu rhwng pedair disgyl bwdin.
Arllwyswch y saws drostynt a'u bwyta'n syth!

**Awgrymiadau**

Ar gyfer parti, gellir gweini mewn gwydrau bach 'shot'.

Os nad oes ffrwythau ffres ar gael, defnyddiwch becyn o ffrwythau'r haf neu ffrwythau'r goedwig wedi'u rhewi. Pan arllwyswch y saws drostynt byddant yn dadmer yn hudolus!

Defnyddiwch siocled tywyll neu siocled llaeth i'w arllwys dros bwdin siocled. Gwnewch y saws heb y gwirod i blant – arllwyswch dros hufen iâ o unrhyw flas!!

Mae'r saws yn cadw am nifer o ddyddiau yn yr oergell.

*Mae Ymgynhoriaeth Bwyd Howel yn gwmni sy'n helpu marchnata bwyd a diod o Gymru gan ddatblygu ryseitiau, bwydlenni, ffotograffiaeth bwyd a hyfforddi.*
*Am ragor o wybodaeth, ewch i www.howelfood.com*

# Gŵyl Ifan 2011 - Mehefin 17-19

Cynnau tân fydd pobl yn ei wneud i ddathlu canol haf ar draws Ewrop ond yma yng Nghymru rhoi polyn pren mewn twll yn y ddaear y byddwn ni, a'i alw'n Pawl Haf. Dyna oedd y traddodiad yn yr hen Forgannwg, mae'n debyg, ac mae'r traddodiad wedi ei atgyfodi ers llawer blwyddyn gan Gwmni Dawns Werin Caerdydd.

I'n helpu eleni gyda'r dathliadau bydd dau grŵp tramor, sef Meskajou o Lydaw, a Stuttgarter Spielkreis o'r Almaen. Mae'r ddau wedi ymweld â Chaerdydd o'r blaen ac yn amlwg wedi cael blas ar ddathlu Gŵyl Ifan gyda dawnswyr o bob rhan o Gymru.

Dros benwythnos 17-19 Mehefin bydd dawnswyr a cherddorion yn dod at ei gilydd i ddathlu Gŵyl Ifan yng Ngwesty'r Angel lle cynhelir Twmpath ar y nos Wener, ac yna Gorymdaith Fawr trwy ganol Caerdydd fore Sadwrn cyn Codi'r Pawl Haf o flaen Neuadd y Ddinas tua 11.30. Yna bydd pawb yn gwasgaru er mwyn perfformio yn yr Amgueddfa Genedlaethol, yr Amgueddfa Werin Sain Ffagan a'r Lanfa yng Nghanolfan y Mileniwm yn y Bae. Bydd dawnsio hefyd yn strydoedd canol y ddinas. Ddiwedd y prynhawn daw pawb yn ôl at ei gilydd i ddawnsio o gwmpas y Pawl, ei dynnu i lawr, a'i gludo yn ôl i Westy'r Angel lle cynhelir Taplas nos Sadwrn.

Daw'r gweithgareddau i ben fore Sul pan fyddwn yn ffarwelio â'n gwesteion – ond nid cyn dysgu dawns neu ddwy. Mae croeso i chi ymuno â ni dros y penwythnos. Ewch i www.gwylifan.org am fanylion.

Eleni, fel rhan o Stori Caerdydd, sy'n cael ei chynnal yn Amgueddfa Caerdydd (yr hen lyfrgell), mae cyfle i chi weld arddangosfa sy'n olrhain hanes Cwmni Dawns Werin Caerdydd. Bydd cyfle i chi weld rhai o'r gwisgoedd yn ogystal â rhai o'r creiriau a gasglwyd dros y blynyddau, a chwrdd â'r Fari Lwyd.

**GŴYL IFAN 2011**

www.cdwc.org

**TWMPATH**

Nos Wener, Mehefin 17
Gwesty'r Angel
8 tan 1 yr hwyr

Tocynnau £7 (£6 blaenllaw)

**www.gwylifan.org** | post@gwylifan.org

## Llety i Ymwelwyr o Batagonia

Oes diddordeb gennych chi i roi llety i ymwelwraig o Batagonia dros yr haf? Byddwn yn derbyn tair ymwelwraig i Gaerdydd eleni i fynychu cwrs haf yng Nghanolfan Gymraeg i Oedolion, Caerdydd er mwyn gwella eu sgiliau iaith Gymraeg cyn dychwelyd yn ôl i'w ysgolion yn y Wladfa.

Rydym yn chwilio am dri llety gwahanol yn ardal Caerdydd, dau lety rhwng y 5ed a'r 27ain o Orffennaf ac un llety rhwng y 5ed o Orffennaf a'r 27ain o Awst 2011.

Bydd angen i iaith y llety fod yn uniaith Gymraeg er mwyn i'r ymwelwyr fanteisio ar ymarfer eu Cymraeg ar bob achlysur. Yn ddelfrydol, bydd y llety wedi ei leoli o fewn pellter cerdded i Brifysgol Caerdydd neu bod trafnidiaeth lleol yn gyfleus.
Bydd yr ymwelwyr yn derbyn lwfans wythnosol i gyfranu tuag at fwyd a chynhaliaeth ddyddiol. Byddwn yn talu £150 yr wythnos i chi fel cyfraniad tuag at fwyd a llety.

Manylion yr ymwelwyr:

Myfyrwraig 1
Oedran: 41 - 04/07/2011 tan 26/08/2011 (8 wythnos o lety)
Myfyrwraig 2
Oedran: 37, llysieuwraig - 4/07/2011 tan 29/07/2011 (4 wythnos o lety)
Myfyrwraig 3
Oedran: 55 - 4/07/2011 tan 29/07/2011 (4 wythnos o lety)

Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Lowri Jones
02920 924 343 neu
lowri.jones@britishcouncil.org

Gwaith Tŷ a Gardd o bob math
Prisiau rhesymol

gwaith coed mân, drwsio
patio ffensio
plastro teilsio



DAFYDD ROBERTS

0780 0961468

# Ysgol Melin Gruffydd

**_Dragon's Den_ Melin Gruffydd**
Cynhaliwyd wythnos fusnes ac arian yn ddiweddar i hybu'r cysylltiadau rhwng byd busnes a gallu ariannol. Trefnwyd cystadleuaeth *Dragon's Den* i ddisgyblion yr Adran Iau, gydag un cyflwyniad o bob dosbarth yn cystadlu yn y rownd derfynol. Diolch yn fawr i Mr Owen o Owen Engineering am feirniadu a noddi'r gwobrau. Llongyfarchiadau i Lili Powell, Megan Burt, Fran Board a Miriam Singer am ennill gyda fersiwn o Monopoly yn seiliedig ar ysgol Melin Gruffydd. Fe fydd dosbarth Mrs Lloyd yn brysur nawr yn mynd ati i greu'r gemau ac yn eu gwerthu yn y ffair haf eleni gyda'r elw yn mynd tuag at elusen Ymddiriedolaeth Cystic Fibrosis.




**Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i Cerys Davage am ennill y wobr gyntaf am ei chyfres o brintiadau du a gwyn.

**Chwaraeon yr Urdd**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol am eu llwyddiant yn rownd Genedlaethol cystadleuaeth yr Urdd yn Llanelli. Cafwyd ymdrech arbennig gan y bechgyn gyda Tyrell Taylor, Brecon Burnett a Jack Turner yn sgorio ceisiau gwych.

Llongyfarchiadau hefyd i Tegid Phillips am ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth y Ras 1000m yn Aberystwyth.

**Cricedwyr o Fri**
Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael eu dewis i chwarae i dîm criced Sir Caerdydd: Tegid Phillips, Zac Lewis, Lili Powell, Seren Murray a Beca Jones, ac i Daniel O'Sullivan am gael ei ddewis i chwarae criced i dîm Cymru.

**Cyflwyniadau Cwis Llyfrau**
Llongyfarchiadau i dimau Cwis Llyfrau dan 10 a dan 12 yr ysgol am yr holl waith caled a pherfformio'n wych yn rownd Sirol y gystadleuaeth Cwis Llyfrau.

# Ysgol y Berllan Deg

**Cwis Llyfrau**
Bu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 3 - 6 yn cymryd rhan yn y Cwis Llyfrau. Da iawn chi am wneud eich gorau glas, a diolch yn fawr i'r athrawon ac i Mrs Mali Gravelle a Mrs Eiry Jones am ein helpu.

**Brigâd Dân**
Daeth dynion tân o Frigâd Dân y Rhath i sgwrsio gyda Blwyddyn 2 a 5 am ffyrdd o ddelio gyda tân ac am eu gwaith o ddydd i ddydd.

**Anifeiliaid**
Bellach, mae gan Ddosbarth Pryderi fochyn Cwta o'r enw Taffi. Mae'r plant wrth eu boddau yn edrych ar ei ôl dros y penwythnos. Hefyd, rydym yn disgwyl i wyau ieir y Dosbarthiadau Derbyn i ddeor yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae pawb yn gyffrous iawn.

**Blwyddyn 6**
Aeth Blwyddyn 6 i weld sioe *Goodnight Mister Tom* yn y Theatr Newydd, a buont ar ymweliad ag Ysgol Gyfun Glantaf.

**Hwylio**
Bellach, mae Blwyddyn 5 wedi cychwyn ar eu gwersi hwylio yng Nghanolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd.

**Sŵ Bryste**
Mwynheuodd Blwyddyn 2 eu trip i Sŵ Bryste gan ddysgu am nifer o anifeiliaid amrywiol.

**Croeso**
Croeso nôl atom i Mrs Medi Davies o'i chyfnod mamolaeth – bydd hi'n addysgu Blwyddyn 5 bob dydd Llun a dydd Mawrth.

**Dymuniadau gorau**
Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Ceri Grisdale Jones sydd newydd ddechrau ei chyfnod mamolaeth, a chroeso atom i Miss Kellie Atkins a fydd ym Mlwyddyn 6 yn ei lle.



# Ysgol y Wern

Mae disgyblion Blwyddyn 4 a Blwyddyn 6 wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer y Cwis Llyfrau. Llongyfarchiadau i dîm Blwyddyn 4 a ddaeth i'r brig yn y Sir, a phob lwc iddynt wrth iddynt gynrychioli Caerdydd yn y Rownd Genedlaethol ym mis Mehefin a gynhelir yn Aberystwyth.

Dyma lun o Gruffydd Williams, Eirlys-Lovell Jones, Ismay Evans, Esyllt Parry-Lowther, Menna Spittle, Daniel Thomas,Osian Thomas, Daniel Williams, Osian Gatehouse

# Ysgol Coed y Gof


Ysgol Coed y Gof - Pencampwyr Peldroed yr Urdd

Nôl ym mis Chwefror enillodd ein tîm pêl droed gyfle i gynrychioli Caerdydd a'r Fro trwy ennill twrnament 7 bob ochr rhanbarthol yr Urdd. Ar y 7fed o Fai, teithiodd tîm pêldroed Coed y Gof i Aberystwyth ar gyfer rownd derfynol y twrnament. Aelodau'r tîm oedd: Bradley Cotterill, George Watts, Callum Flynn, Evan Davis, Dylan Hoare, Shaun Gauci, Tyrese Jones, Sam Davies, Matthew Hawkins a Coel Smith.

Roedd 16 o dimoedd a enillodd yn eu rhanbarthau lleol wedi ymgasglu ac yn chwarae mewn grwpiau o 4. Gorffennodd Ysgol Coed y Gof ar frig eu grŵp gan symud ymlaen at y rowndiau gogynderfynol a chynderfynol gyda pherfformiadau gwych ac ymroddgar gan bob aelod o'r tîm.

Yn y rownd derfynol roeddent yn chwarae yn erbyn Ysgol Dewi Sant, Llanelli. Roedd y sgôr yn gyfartal ar ddiwedd y gêm, ac ar ddiwedd y cyfnod o amser aur, gyda'r ddau dîm yn rhoi o'u gorau. Roedd yn rhaid symud at giciau cosb er mwyn penderfynu'r twrnament. Roedd y tensiwn a'r awyrgylch yn anhygoel erbyn hyn! Sgoriodd pob un o chwaraeuwyr Coed y Gof eu ciciau cosb ac fe fu Callum Flynn, eu gôl geidwad yn ysbrydoledig wrth arbed dwy o giciau Ysgol Dewi Sant. Cafwyd dathlu mawr wrth gyhoeddi Ysgol Coed y Gof yn Bencampwyr Cymru ar gyfer 2011.

Llongyfarchiadau mawr i bob aelod o'r tîm a diolch arbennig i'r athrawon fu'n hyfforddi ac i'r rhieni am fod mor barod i deithio a dangos eu cefnogaeth. Edrychwn ymlaen yn awr at amddiffyn ein teitl y flwyddyn nesaf! Gweler y tîm buddugol yn y llun gyda'u medalau a'r darian.


**Cyfarfod Blynyddol**
**Y Dinesydd**

Nos Iau, 14 Gorffennaf,
yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina,

am 7.00.

Croeso cynnes i holl ddarllenwyr y papur.

# Ysgol Pen y Garth



Ysgol Pen y Garth yn ennill Marc Safon Becta Technoleg Gwybodaeth

**Technoleg Gwybodaeth**

Yn dilyn arolwg manwl gan arolygwr allanol, gwobrwywyd yr ysgol yn ddiweddar gyda gwobr urddasol Marc Safon Becta Technoleg Gwybodaeth. Mae'r wobr yn cydnabod llwyddiant yr ysgol yn ei defnydd strategol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y dosbarthiadau ac yn weinyddol. Rydym yn hynod o falch gyda'r cymhwyster yma - mae'n dangos ein bod yn ymroi i sicrhau fod ein plant yn cael eu paratoi ar gyfer technoleg y dyfodol. Mrs Scully fu'n cydlynu'r asesiad a sicrhau safonau uchel ar gyfer hyn. Diolchwn yn fawr am ei gwaith diflino.

**Estyniad Newydd**

Mae'r estyniad newydd, sef dau ddosbarth, stordai, toiledau a lle cotiau, yn mynd yn ei flaen yn dda a gobeithiwn y bydd yr adeilad yn barod ar gyfer mis Medi 2011.

**Wythnos Menter a Busnes**

Cafodd Blwyddyn 6 gyfle i ddangos ystod helaeth o dalentau yn ystod wythnos Menter a Busnes. Wedi 'Syr Alan Sugar Edwards' fuddsoddi £20 ymhob cwmni, uchafbwynt yr wythnos oedd Ffair Fasnach ar ddydd Mercher pan wnaethpwyd elw clir o £217.59. Crefftau Cracin oedd y cwmni mwyaf llwyddiannus.

# Ysgol Glantaf

**Ar y Ffordd i Eisteddfod yr Urdd**
Cafodd disgyblion Glantaf lwyddiant mawr yn Eisteddfodau Sir yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau i'r Parti Bechgyn Iau, Côr Merched a Bechgyn Hŷn, Côr SATB, Parti a Chôr Cerdd Dant, yn ogystal â'r unigolion Iwan Jones, Dafydd Lansley, Branwen Jones, Sara Davies, Elan Parry-Lowther ac Elizabeth Clements. Cafwyd llwyddiant mawr gyda'r offerynwyr hefyd, ble mae'r Gerddorfa a'r Ensemblau Hŷn ac Iau yn mynd ymlaen i Abertawe, yn ogystal â Charlie Lovell-Jones (buddugol mewn 4 cystadleuaeth), Harry Lovell-Jones, Owen Harries, Carwyn Harris, Alys Walsh a Dewi Preece. *[GOL. Yn yr Wŷl yn Abertawe roedd lawer o ddisgyblion o ysgolion Caerdydd wedi disgleirio. Llongyfarchiadau. Gobeithio cawn ni beth o'u hanes yn y rhifyn nesaf o'r Dinesydd. ]*

**Partneriaeth ag Ysgol Fitzalan**
Mae Ysgol Gyfun Glantaf wedi sefydlu partneriaeth gydag Ysgol Fitzalan ers Rhagfyr 2010 gyda'r bwriad o gynnal Clybiau Cymraeg rhwng y ddwy ysgol. Bu grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 9 Glantaf yn brysur iawn yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ar ôl ysgol gyda charfan o ddisgyblion Blynyddoedd 7 i 9 o ysgol Fitzalan. Mae'n gyfle perffaith i gael ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa anffurfiol a chael gwneud ffrindiau newydd o ysgol arall. Mae'r clybiau'n digwydd ar ddydd Iau olaf bob mis.

**Tim Addysg Peirianneg Cymru Bl.12**
Llongyfarchiadau i dîm peirianneg Bl.12-Joshua Moreau, Ffion Stone, Joel Murphy, Alun Rees, Osian Shelley a Joseff Smith a oedd wedi mynychu cystadleuaeth yn y Celtic Manor 11/04/11. Roedd y tîm wedi cydweithio a gwneud yn ardderchog i greu model gweithiol o system dal microffon ar gyfer y BBC.

**Hoci**
Rhaid llongyfarch holl dimoedd hoci yr ysgol am eu llwyddiant ym mhob twrnament Caerdydd ar Fro.
Mae'r canlynol yn Bencampwyr y Sir-Timoedd Dan18, Bl.11, Bl10 Bl.8, Bl.7 a daeth Bl.9 yn ail. Ddim yn ffôl!
Mae'r canlynol wedi cael eu dewis i chware dros Gaerdydd a'r Fro-
Dan 18: Emma Gowman, Hannah Sennett, Amy Fletcher, Cathrine Hughes.
Dan 16: Alys Smith, Eleanor Mahoney, Beca Davies, Elin Hughes, Rhiannon Jones, Lara Duranni.
Dan 14: Anna Lawson, Nia Davies, Beca Hayes.
Mae'r canlynol wedi cynrychioli De Cymru-
Alys Smith, Eleanor Mahoney, Beca Davies, Nia Davies, Anna Lawson.
Cynrychioli Cymru-
Emma Gowman, Alys Smith, Dewi Roblyn, Morgan Harris,Jack McLean, Geraint Roblyn, Cian Pritchard.
Yn sgwad Cymru- Beca Davies a Nia Davies.
Llwyddodd tîm dan16 Tîm y Bechgyn ddod yn ail yn rownd De Cymru Cwpan dan18 Cymru

**Rygbi**
Llwyddiannau disglair i'r maswr Rhys Patchell y tymor hwn, wrth iddo ennill nifer o gapiau rhyngwladol yn ystod ei dymor cyntaf yn rhan o garfan Cymru dan 18 oed. Yn barod mae wedi ennill cap yn chwarae yn erbyn Yr Eidal, Yr Alban, Siapan, Lloegr a thra'n chwarae yn erbyn Ffrainc, llwyddodd i sgorio 12 o bwyntiau! Mae newydd gael ei enwi yn rhan o garfan 7 bob ochr Cymru ar gyfer y FIRA European Grand Prix dros yr haf! Llongyfarchiadau mawr iddo!



# Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

*Yn dilyn o'r dudalen gefn*

Deian Thomas enillodd Gwpan RH Williams, Chwaraewr y Flwyddyn. Osian Jones oedd Chwaraewr yr ail dîm. James Shawe oedd y Chwaraewr Mwyaf Addawol, Dafydd Sidgwick y Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf, Sam Lewis Jones oedd Arwr yr Ail Dîm, Rhys Jones yn Glubman a Geraint Morgan yn derbyn Gwobr Neil Cole.



Cwpan RH Williams a Deian Thomas gyda Dr Dylan Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Bu'n flwyddyn bwysig i'r Clwb Rygbi mewn ffyrdd eraill hefyd wrth i'r Adran Iau gael ei sefydlu. Cynhaliodd hyfforddwyr a chwaraewyr y clwb sesiynau hyfforddi hwyliog ar Gaeau Llandaf ar fore dydd Sul i blant o bob oedran. Cymerodd dros 100 o blant ran i gyd, gan ddatblygu sgiliau rygbi sylfaenol.

O ganlyniad i'r holl waith caled, gwnaed cais i Undeb Rygbi Cymru am Adran Iau ffurfiol, a derbyniwyd y cais. Felly'r tymor nesaf bydd gennym dimau a byddwn yn cynnal gemau cystadleuol o dan 8, 9, 10 ac 11.

Os yw eich mab neu'ch merch yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ag Aled ar e-bost clwbrygbi@hotmail.com gan ein bod yn awyddus i ddatblygu chwaraewyr a fydd, rhyw ddydd, yn cynrychioli Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn yr Adran Hŷn.

Eleni, mae CRCC wedi cael cartref am y tro cyntaf, ac mae'r fenter wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Diwrnodau rhyngwladol i'w cofio, partïon i blant, a hyd yn oed dosbarth cynganeddu Menter Caerdydd. Os nad ydych wedi galw mewn, wel, gwnewch yn ystod y tymor nesaf; mae yna groeso cynnes i chi gyd. Rhaid diolch i Glwb Bowlio Penhill am eu cefnogaeth eleni ac edrychwn ymlaen at gydweitho y tymor nesa.

Am fwy o wybodaeth am Glwb Rygbi Cymry Caerdydd, ewch i www.clwbrygbi.com

# Newyddion o'r Eglwysi

## Eglwys Dewi Sant

**Gwasanaeth Sefydlu**
Hyfrydwch o'r mwyaf oedd croesawu ein Ficer newydd, y Parchedig Dyfrig Lloyd, ganol mis Mai. Bydd Dyfrig hefyd yn gweithredu fel Swyddog Iaith Esgobaeth Llandaf. Roedd cynulleidfa luosog yn y gwasanaeth a weinyddwyd gan Archesgob Cymru, y Dr. Barry Morgan. Roedd geiriau ei bregeth yn bwrpasol wrth iddo sôn am ofal bugeiliol pob offeiriad.

Brodor o Lansaint, ger Cydweli, yw Dyfrig a bu'n gurad yn Llandysul ac yn Ficer yng ngofal pump Eglwys ym Mhlwyf Rheithorol Bro Teifi Sarn Helen cyn dod atom i Eglwys Dewi Sant. Prawf o'i boblogrwydd oedd bod llond bws wedi teithio o ardal Llanddewi Brefi i'w gefnogi, yn ogystal â theulu a ffrindiau.

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn annwyl iawn am Enid Mears a fu farw ar ôl salwch hir. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r Esgob Cledan a'r teulu cyfan.

**Genedigaeth**
Estynnwn ein llongyfarchiadau i Nia Thomas a'i chymar Richard ar enedigaeth Elen Mai, chwaer fach i Dafydd Siôn.

**Datganiadau Organ**
Bu dau ddatganiad organ awr ginio yn ystod mis Mai, un gan David Geoffrey Thomas o Eglwys Gadeiriol Llandaf, a'r llall gan Robin Baggs o Ysgol Westonbirt, Caerloyw. Cyflwynwyd dwy raglen amrywiol a chyffrous a werthfawrogwyd gan gynulleidfaoedd teilwng o ran nifer.

## Y Crwys

**Yr Ysgol Sul**
Cafodd plant yr Ysgol Sul fore i'w gofio yn y Miri Mawl a gynhaliwyd yn yr Eglwys Norwyaidd yn y Bae ar fore Sul Mai 16eg. Bu'r pwyllgor oedd yn trefnu y digwyddiad yn ddigon ffodus i gael Rhys Harries a'i fand i lywio'r gweithgareddau oedd yn cynnwys dawnsio, symudiadau rhyddmig, a chanu caneuon cysegredig newydd a hen.

**Y Gymdeithas Ddrama**
Cynhyrchiad diweddaraf y Gymdeithas yw Ar Brawf gan I D E Thomas. Yn y ddrama hon rhoir atgyfodiad Crist ar brawf, gan ddefnyddio'r ffynonellau ysgrythurol fel sylfaen i'r llys dychmygol oedd yn ceisio tystiolaeth gan unigolion eu bod wedi gweld y Meistr ar ôl iddo atgyfodi – neu tybed ai ar ddychymyg yn unig y seiliwyd y cyfan?
Ar ôl perfformiad ysbrydoledig yn Y Crwys ar nos Sul y Pasg, aeth y gymdeithas â'r ddrama i Fethel, Llangyfelach, ar nos Wener Mai 6ed, lle cafwyd cynulleidfa deilwng a gwerthfawrogol iawn.

**Darlith**
Ar nos Iau, Mai 19eg, cafwyd darlith hynod o amserol gan yr Athro John Gwynfor Jones ar y testun Ordeinio Gweinidogion am y tro cyntaf gan y Methodistiaid ym 1811 – er fod gwreiddiau y Diwygiad Methodistaidd ar gerdded trwy ein gwlad yn y ddeunawfed ganrif. Mae'r maes arbennig yma yn gwbl berthnasol ar hyn o bryd gan ein bod yn cofio ac yn dathlu y digwyddiad yma ddau gan mlynedd yn ôl i eleni. Cawsom ganddo gip olwg cynnar ar y mudiad hwn o fewn yr Eglwys Sefydliedig yn ogystal a'r rhesymau dros yr ymwahanu.

**Garddwest**
Ar ddydd Sadwrn, Mai 7fed, cafwyd garddwest hynod o lwyddiannus yng nghartref Arthur a Diana Evans yn yr Eglwys Newydd. Bu'r tywydd yn garedig a chawsom groeso cynnes yn eu cartref i fwynhau te prynhawn a llond gwlad o flodau a phlanhigion i'w prynu yn ogystal â byrddau o gacennau cartref i'w chwenychu. Da oedd i ni fod yno.

## Tabernacl

**Genedigaeth**
Cyd-ddathlwn gyda Daniel a Lisa wrth ddiolch am William Llywelyn, eu plentyn cyntaf. Llongyfarchiadau hefyd i Huw ac Amanda Thomas - maent yn prysur lenwi eu cartref newydd gan fod Seth Montgomery wedi dod i hawlio ei le.

**Priodas**
Llongyfarchwn Bethan Sheen a Rhys Parsons ar achlysur eu priodas ar Sadwrn y Pasg. Mae'r ddau wedi bod yn selog yn ein plith ers peth amser bellach ac yn byw yng Nglanfa Penarth.

**Swydd Datblygu gwaith yr Ifanc**
Mae'n braf cael cyhoeddi fod un o'n plith wedi derbyn ein gwahoddiad i wasanaethu fel Ysgogydd yr Ifanc. Bydd Marc Jon Williams yn cychwyn ar ei ddyletswyddau ym mis Medi, wrth iddo gael cyfnod o flwyddyn yn rhydd o'i waith fel athro.

**Cofio John Hall**
Gyda thristwch y nodwn farwolaeth John Hall, priod y diweddar Beryl, a brawd-yng-nghyfraith Myfi Cosslett. Mae'n gadael tri phlentyn a'u teuluoedd a rhannwn gyda hwy atgofion melys am fonheddwr annwyl, parod ei gymwynas a graslon ei wedd, ac am gyfaill cywir i gynifer ohonom.

**Dr I D E Thomas yn 90 oed**
Nid bob dydd bydd un o aelodau'r Tabernacl yn hedfan draw yn unswydd i UDA er mwyn bod gyda'i brawd wrth iddo ddathlu ei benblwydd yn 90 oed. Dyna fu hanes Mair Owen a'i theulu yn ystod mis Ebrill. Cofiwn am gyfraniadau cyfoethog y pregethwr a'r darlithydd enwog mewn sawl maes.

**Boreau Coffi**
Diolch i Helen Jones ac i Mari Rogers am y croeso i'w haelwydydd ym mis Ebrill.

**Cyngerdd Côr Cantemus Mai 14eg**
Roedd y gyngerdd hon eleni yn arwyddocaol am mai dyma oedd y tro cyntaf i'r organydd a'r cerddor enwog Huw Williams arwain y côr hwn yn y Tabernacl. Roedd ganddynt arlwy amrywiol a heriol fel arfer, a bu'r noson yn un arbennig o lwyddiannus.

## Salem

**Miri Mawl**
Daeth nifer o deuluoedd y capel ynghyd i fwynhau Miri Mawl yn yr Eglwys Norwyaidd ar y 15fed o Fai, cyfle i blant a theuluoedd ganu mewn awyrgylch hwyliog anffurfiol. Yn dilyn hyn trefnwyd bwyd yn Spice Root, cawsom amser cinio i'w gofio!

**Adran yr Urdd**
Mae'r Adran wedi bod yn cwrdd bob nos Iau rhwng 6 a 7, gan baratoi at gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd, yn ogystal â gwneud gwahanol weithgareddau hwyl bob wythnos. Mae tua 25 wedi bod yn dod yn gyson – gwych. Digon o gyfle i sgwrsio a mwynhau.

**Clwb Llyfrau, Clwb Brecwast, Clwb Coffi**
Mae'r clwb brecwast wedi bod yn cwrdd yn ystafell Edwin a'r cwis llyfrau wedi bod yn trafod, a'r clwb coffi wedi bod yn yfed (coffi!). Croeso i chi i ymuno â ni i gymdeithasu yn ystod yr wythnos.

**Clwb Criced**
Mae'r clwb criced wedi bod yn ymarfer yn gyson yn y rhwydi er mwyn paratoi at dymor prysur. Edrychwn ymlaen at weld cricedwyr Salem yn arddangos eu talentau'r haf yma unwaith yn rhagor, gan obeithio am dywydd da. Cofiwch ddod i'n cefnogi!

**Clwb y Bobl Ifanc**
Daeth y clwb ynghyd i gael Gêm y Cenedlaethau nos Wener yr 20fed o Fai.

**Gwibdaith i Cheltenham**
Rydym yn trefnu gwibdaith i Cheltenham ar Fehefin 18fed. Croeso i chi roi eich enwau yn y cyntedd neu i un o'r blaenoriaid os hoffech ymuno â ni.

## Minny Street

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn annwyl am y Capten Robert Owen-Ffoulkes (Penarth). Er iddo symud i Sir Benfro am gyfnod yn dilyn marwolaeth ei briod, Barbara, cadwodd ei gysylltiad â Minny Street ac yr oedd wedi dychwelyd i'r ardal ers nifer o flynyddoedd bellach. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Neil a'r teulu yn Ninas Powys.

**Gweithgarwch Cymorth Cristnogol**
Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i hyrwyddo wythnos Cymorth Cristnogol. Yn y Cwrdd Chwarter (4 Mai) cyflwynodd y Parchedig Jeff Williams, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymorth Cristnogol yng Nghymru, ddarlun byw o raglenni cyfredol y mudiad a'i bartneriaid – gwaith a gynhelir o dan dri phennawd: Bywoliaeth Gynaliadwy; Cyfiawnder Economaidd, a Llywodraethu Uniawn.

I Nicaragua y tywysodd Eirian, Richard, Owain, Elen a Rhodri Jones ni yn Oedfa Foreol Gynnar, 8 Mai, i sôn am ymdrechion trigolion pentref La Paz del Tuma i godi ysgol newydd â chymorth un o bartneriaid Cymorth Cristnogol. Yna, mewn gwasanaeth dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn y festri ar 12 Mai, cyfeiriodd Aled Pickard, Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr Cymorth Cristnogol, at ei gyfnod yn Ne Affrica a'r gwahaniaeth go iawn y gall gweithgarwch

y mudiad a'i bartneriaid ei wneud i fywydau unigolion. Fe'n hatgoffwyd, fodd bynnag, fod ein ffordd ni o fyw, yn anfwriadol neu beidio, yn ecsbloetio pobl gan sicrhau bod tlodi yn parhau.

Ymhlith digwyddiadau eraill i gefnogi wythnos Cymorth Cristnogol yr oedd bore coffi yn festri'r Tabernacl, Yr Ais (14 Mai); oedfa Cymorth Cristnogol yr eglwys (15 Mai): swper cawl a bara yng nghwmni'r bobl ifanc (16 Mai); a the prynhawn ar aelwyd Margaret Davies (20 Mai).

**Cyngerdd Cantorion Ardwyn**

Diolch i Gantorion Ardwyn am gyngerdd arbennig iawn (18 Mai) er budd ein helusen, Yr Ystafell Fyw, y disgwylir iddi agor yn swyddogol ym mis Medi.

Am holl newyddion diweddaraf Minny Street ewch i www.minnystreet.org.

## Ebeneser

**Blodau Haul**

Bydd cystadleuaeth yn cael ei chynnal rhwng nawr a mis Medi i weld pwy all dyfu'r blodyn haul talaf. Cesglir nawdd yn ôl y droedfedd, a bydd yr arian yn mynd i'n helusen am eleni, Tŷ Hafan – hosbis i blant.

**Sêr Eben**

Mewn eglwys, hawdd yw colli adnabod ar fywyd a datblygiad y plant a'r bobl ifanc tu allan i furiau'r capel. Hyfryd felly, ar fore Sul 8fed Mai, yn dilyn yr oedfa, oedd cael cyngerdd bychan yn arddangosfa o amrywiol dalentau'r bobol ifanc, yn cynnwys Tai Kwan Do (WOW!). Diolch i John Hayes am arwain ac i Helen Thomas am gyfeilio.

**Ocsiwn**

Ar nos Fawrth, 17eg Mai, cynhaliwyd ocsiwn er budd ein helusen am eleni sef Tŷ Hafan – hosbis i blant. Roedd yna drugareddau i'w gwerthu – yn beintiadau, tocynnau i'w defnyddio mewn siopau a chanolfannau hamdden, llestri, prydau yng nghartrefi aelodau, prydau mewn bwytai, englynion a chaneuon yn llawysgrifen yr awdur ei hun a llawer mwy. Gwerthwyd hefyd noson o warchod a golchi ceir gan yr ieuenctid. Diolch i bawb a gyfrannodd eitemau i'r ocsiwn ac wrth gwrs i bawb brynodd gan gynnwys un o'r aelodau oedd ar ei wyliau dramor, drwy gynnig pris dros y ffôn. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben a chodwyd £2475. Gwych! Diolch i John Hayes am fod yn arwerthwr ac Alun Tudur am fod yn gynorthwywr arddangos deunyddiau!

**Llongyfarchiadau**

... i Cedric Jones ar gyrraedd pen-blwydd go arbennig yn ystod mis Ebrill.

... i Ynyr Roberts a Steve Balsamo ar ennill cystadleuaeth yr Ŵyl Ban Geltaidd yn ddiweddar gyda'r gân afaelgar, Rhywun yn Rhywle.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda theulu Sandra a John Semmens yn eu profedigaeth lem. Yn ddiweddar bu farw tad Sandra, a oedd yn byw yn Nhrefdraeth.

Estynnwn gydymdeimlad hefyd â theulu Roger a Lorenza Thomas ar farwolaeth mam Roger oedd yn byw yn Llandybie.

# Calendr Y Dinesydd

**Iau, 9 Mehefin**

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

Clwb Gwawr Caerdydd. Helfa drysor ar droed ym Mae Caerdydd. Manylion: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu dudalen Facebook y clwb.

Cyngerdd Hwyrnos Haf yng nghwmni Wynne Evans, Catrin Finch, Jeffrey Howard, Mark Evans, Shan Cothi a thalent ifanc y Fro. Yn Neuadd Bradenstoke, Sain Dunwyd am 7.30pm. Tocynnau: £25.00 o Davies Newsagents, Y Bont-faen neu www.midsummermusic.ticketsource.co.uk. Yr elw at Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012.

**Sadwrn, 11 Mehefin**

Cymdeithas Eglwys y Tabernacl, Yr Ais. Trip y Gymdeithas i Gapel Rydwilym ac Arberth.

**Llun, 13 Mehefin**

Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Barbeciw.

**Mawrth, 14 Mehefin**

Merched y Wawr Caerdydd. Brethyn Cartre a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 15 Mehefin**

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te pen-tymor a Chyfarfod Blynyddol, am 2.00pm yn festri Capel Minny Street.

Yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.00, bydd Syr John Houghton yr arbenigwr byd-enwog ar gynhesu byd-eang, ac enillydd Gwobr Nobel, yn annerch ar y testun Science, God and Global Warming.

**Gwener, 17 Mehefin**

Cymdeithas Carnhuanawc. Helfa Drysor Tafwyl 2011 o amgylch Penarth. Cyfarfod wrth yr orsaf ym Mhenarth am 6.30pm a gorffen yn y 'Windsor'. Arweinydd: Keith Bush.

Gŵyl Ifan. Penwythnos o ddawnsio gwerin i ddathlu Canol Haf. Twmpath yng Ngwesty'r 'Angel' nos Wener am 8.00pm. Gorymdaith ac arddangosfeydd dawnsio yng nghanol y Ddinas a'r Fro ddydd Sadwrn. Timoedd o bob cwr o Gymru a'r tu hwnt yn dod i ddawnsio yn ein prifddinas. Manylion pellach: 029 20563989 neu www.gwylifan.org.

**Sadwrn, 18 Mehefin**

Gwibdaith i Cheltenham. Gadael Capel Salem, Treganna am 8.30am a gadael Cheltenham am 4.30pm. £13.00 y pen. Croeso mawr i bawb. Ffoniwch Cath ar 01446 774530.

Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Astudio'r gerdd 'Y Ffatri'n Cau' (Gwyn Thomas) yng nghwmni Ann Davies ac Amanda Griffiths am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi yn Neuadd Capel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd Ambiwlans Awyr Cymru.

Cymdeithas y Beibl. Diwrnod o anogaeth ac ysbrydoliaeth yng nghwmni Watcyn a Lowri James a Heather Clements. Yn Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd o 2.00pm tan 4.00pm. Paned a chacen i ddilyn.

**Llun, 20 Mehefin**

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyfarfod Blynyddol, ac yna noson yng nghwmni Sally Davies, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

**Mawrth, 21 Mehefin**

Clwb Llyfrau Llenyddiaeth Cymru a Chanolfan y Mileniwm. Meic Povey yn trafod ei hunangofiant Nesa Peth i Ddim, gyda Grahame Davies yn arwain y drafodaeth. Yng Nghanolfan Glyn Jones yng Nghanolfan y Mileniwm am 7.00pm. Yn rhad ac am ddim, ond gofynnir i chi archebu lle ymlaen llaw drwy ffonio 029 20472266.

**Sadwrn, 25 Mehefin**

Côr Philharmonig Caerdydd yn perfformio 'Atgof o'r Sêr' gan Robat Arwyn yn Eglwys Dewi Sant am 7.30pm. Tocynnau £8.

**Mercher, 29 Mehefin**

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweliad â thre Caerfyrddin a'r Amgueddfa yn Abergwili.

**Sul, 3 Gorffennaf**

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Emyr Roberts; Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah am 8.00pm.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at*
*Dr E. Wyn James,*
*16 Kelston Rd.,*
*Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ*
*Ffôn: 029 2062875*
*Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk*

# 'Stafell Fyw Caerdydd yn Dod yn Realiti

Cwta 4 mis sydd i fynd cyn agor 'Stafell Fyw Caerdydd - y ganolfan adfer newydd a chyffrous ar gyfer y rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth ar alcohol a chyffuriau a phethau eraill.

Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn 58 Richmond Road ar y 26ain o Fehefin, a'r bwriad yw agfor yn swyddogol ar yr 8fed o Fedi.

Ond cyn hynny, wrth gwrs, mae llawer o waith i'w wneud. Mae'r grwpiau trafod a'r gwaith cynghori un-i-un wedi bod yn mynd ymlaen ers peth amser ochr yn ochr â'r gwaith o greu ymwybyddiaeth o'r ganolfan newydd.

Yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd tynnwyd sylw at *Gân y 'Stafell Fyw*, ac mae ar gael i'w lawr lwytho o www.sainwales.com ac ar *iTunes*.

Yn fuan, gobeithio, bydd hysbyseb i'r 'Stafell Fyw yn ymddangos ar y teledu ac yn y sinemâu. Yn y ffilm fer, dangosir cyfres o ddrysau y bydd dioddefwr yn mynd drwyddynt ar ei daith i'r gwaelodion, cyn cynnig ei fod yn 'agor y drws i fywyd gwell' drwy fynychu'r 'Stafell Fyw.

Dangosir yr hysbyseb yn gyhoeddus am y tro cyntaf ar achlysur ein Darlith Flynyddol yn adeilad Pier Head, Bae Caerdydd, nos Fawrth 21ain o Fehefin. Phil Valentine, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymuned Adfer o Gaethiwed Connecticut (CCAR) fydd yn traddodi'r ddarlith ar y testun, 'Sut daeth adferiad yn gwbl allweddol eto'. Cynhelir y digwyddiad ar wahoddiad Alun Ffred Jones AC, a chadeirir y noson gan Angharad Mair. Os oes diddordeb gennych i fynychu'r ddarlith - fydd yn sôn am yr union driniaeth fydd ar gynnig yn 'Stafell Fyw Caerdydd - yna cysylltwch â ni drwy e-bost: gwybodaeth@cyngorcymru.org.uk neu drwy ffonio (029) 20 49 3895.

Gwerthfawrogir cefnogaeth eglwysi Bethlehem, Gwaelod-y-garth a Minny Street, Caerdydd, sydd wedi mabwysiadu elusen 'Stafell Fyw Caerdydd fel eu 'helusen y flwyddyn' ac mae nifer o ddigwyddiadau eisoes wedi eu trefnu ganddynt i godi arian.

I ddathlu agoriad swyddogol y 'Stafell, bydd cyngerdd mawreddog yn dilyn Taith Gerdded Adfer Cymru'r DU ar y 10fed o Fedi. Disgwylir oddeutu 1,500 i gerdded drwy strydoedd canol Dinas Caerdydd i ddathlu'r ffaith bod pobl yn gallu, ac yn gwella o broblemau salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau.



Wynford Ellis Owen, Enid Smith a Lucia Homolova a fydd yn lansio'r daithgerdded ar 10 Medi

## Tîm Dan 12 yr Urdd ar y Brig



**Rhes gefn o'r chwith i'r dde** - Dafydd Powell, Edward O'Hare Willmott, Garmon ab Ion Thomas, William Marsh, Tomos James, Aeron Evans, Bedwyr Evans. **Rhes flaen o'r chwith i'r dde** - Jac Wylie, Hari Wyn Bowen, Elis Williams, Geraint Hoskins, Gwion Williams, Jake Burge, Jolyon Morgan

Cipiwyd pencamwriaeth Adran B Caerdydd a'r Cylch gan y sgwod o 14. Ni chollodd y bechgyn o Blasmawr, Glantaf, ac un cyfaill o Fitzalan, yr un gêm drwy'r tymor. Cafwyd dwy gêm gyfartal. Am y tro cyntaf yng nghof arweinwyr presennol yr Urdd, dyma'r tîm cyntaf i ennill dyrchafiad ac ennill ei adran. Cyflwynwyd tlysau buddugwyr Cynghrair Caerydd a'r Cylch, a noddir gan Brains, yn Neuadd y Ddinas. Dilynwyd hyn gyda dathliad yn Diner 77 Pontcanna, ble derbyniodd y chwaraewyr lun o'r tîm a chofnod o'r ystadegau. Derbyniodd Elis Williams, a sgoriodd dros hanner cant o goliau, dlws Chwaraewr y Flwyddyn.

## Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Tymor rygbi arall wedi dod i ben, a beth oedd hanes Clwb Rygbi Cymry Caerdydd eleni? Wel, yr ateb syml yw tymor anhygoel - y tîm cyntaf yn ennill Adran 6 Canolog gyda 17 buddugoliaeth a cholli un gêm yn unig; 97 cais, a sgorio ar gyfartaledd 42 o bwyntiau ym mhob gêm gynghrair. Ystadegau anhygoel mewn adran anodd tu hwnt. Dyrchafiad oedd y nod ar ddechrau'r tymor a rhaid nawr aros i'r Undeb benderfynu ble fydd dyfodol y Clwb. Cawn wybod erbyn diwedd Mai. *[GOL. Deallwn fod yr Undeb wedi gwrthod y dyrchafiad. Anghredadwy!]*

I gael unrhyw lwyddiant, mae angen gwaith caled a charfan dda. Rhaid felly sôn am y tîm hyfforddi - Keri Evans, Gareth Williams, Emyr Thomas a'r pwyllgor gweithgar. A'n noddwyr: Wales1, Adnod, ELT, GHG, Location Solutions, Iechyd Da, Westpoint Financial, Pentan a'r Mochyn Du.

Ond rhaid i'r clod fynd i'r bois, nid yn unig y tîm cyntaf ond holl fois CRCC. Sicrhaodd yr ail dîm ddyrchafiad llynedd ac mae safon ei rygbi wedi gwella yn sylweddol. Roedd gorffen yn drydydd yn yr adran newydd yn ymdrech arbennig. Diolch i Neil Cole, Mark Beynon ac Andy Morse am eu gwaith yma. Mae safon yr ail dîm wedi gwthio safonau y tîm cyntaf yn uwch. Mae niferoedd ymarfer eto wedi syfrdanu pawb - 50 o fois yn gyson - a chwaraewyr newydd yn ymddangos drwy'r amser. Pobol o bobman ag o bob gallu - croeso i chi gyd.

Mi gafwyd noson wobrwyo arbennig yn Stadiwm Swalec ar y 7fed o Fai yng nghwmni Dennis Gethin, Llywydd Undeb Rygbi Cymru, a gyflwynodd y cwpan i Hywel Jones, Capten y Clwb. Os na gewn ni ddyrchafiad ar ôl i Mr Gethin ddod i'r cinio, does dim gobaith!!

*Gweddill y stori ar dudalen 17*